# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

**RHIF 121** **RHAGFYR IONAWR** 1985

# Awdurdod i ail-feddwl?

YMDDENGYS y bydd cynlluniau dadleuol Awdurdod Addysg De Morgannwg i ail-drefnu addysg uwchradd yn y Brifddinas yn wynebu mwy o anhawsterau nag a ragwelwyd.

Eisoes mae cynrychiolwyr rhieni pob ysgol gynradd Gymraeg yn nalgylch Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf wedi mynegi'u gwrthwynebiad croyw i'r syniad o ymestyn yr ysgol ar ail safle yn hen adeiladau Ysgol Waterhall, sydd ar hyn o bryd yn gartref i ddosbarthiadau is Ysgol Gyfun Cantonian.

Ond nawr mae'n bosibl y daw gwrthwynebiad i'r cynllun yn sgil cynlluniau'r awdurdod addysg i gau ysgol arall. Mae'n fwriad gan yr awdurdod i gau Ysgol Babyddol yr Esgob Hannan, yn Beechley Drive, a'r gred oedd y byddai'r mwyafrif o'r plant yn trosglwyddo i Ysgol Babyddol Lady Mary yng Nghyncoed. Ond yn ôl yr hyn a ddealla'r Dinesydd nid yw hyn o angenrheirdrwydd yn wir.

Pan gauir Ysgol yr Esgob Hannan mae'n debyg y bydd nifer sylweddol o'r plant yn dewis mynychu Ysgol Cantonian, sydd ar eu stepyn drws o'i gymharu ag Ysgol Lady Mary sydd yr ochr arall i'r ddinas. Ni fydd gan yr awdurdod yr hawl i'w rhwystro.

Pe digwydd hynny, ni fyddai digon o le ar brif safle Cantonian i'w cartrefu. Mae prifathro Cantonian eisoes wedi croesawu'r bwriad o uno ei ysgol ar un safle, ond pe ceir cynydd yn nifer y plant sy'n ceiso am le yno efallai y byddai'n rhaid iddo dderbyn parhad o'r sefyllfa bresennol.

Mae'n eitha posibl felly y bydd yn rhaid i Ysgol Cantonian ddal ei gafael ar adeilad Waterhall er mwyn gallu darparu ar gyfer y cynydd mewn disgyblion.

Byddai hyn yn gosod yr awdurdod addysg mewn sefyllfa anodd dros ben ac yn ei orfodi, o bosibl, i ail-ystyried y posibilrwydd o adeiladu ar safle Glantaf neu sefydlu ysgol arall ar safle y tu allan i Gaerdydd ar waethaf y gost ychwanegol.

Un peth sy'n sicr, mae modd newid y penderfyniad a wnaed ym mis Tachwedd. Fel y dangoswyd ar sawl achlysur yn y gorffennol, mae ymgyrchu dygn a di-flino yn ennill y dydd, ac ar drothwy blwyddyn newydd edrychwn ymlaen i'r fuddugoliaeth.

PARTI CAWL A CHAN
Y DINESYDD

NOS SADWRN 11 IONAWR 1986
Neuadd y Sgowtiaid
Rhiwbeina am £7.30

# NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA



"Gwisgo Mwgwd" - llun o waith plant yn Ysgol Feithrin Trelai a fu'n defnyddio cyfleusterau stiwdio ffotograffiaeth Martin Roberts yn Siop Gymunedol Barnado. Am ragor o luniau a hanes y ffotograffydd trowch i dudalen 9.

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr Y Dinesydd at:
Lynn Jones   Ffon: 562816

RHAGFYR

14 - Ser yn Salem
Salem Canton 7.30
Mynediad £1.50
Elw tuag at y trydydd byd.

14 - Clwb Ifor Bach
Huw Chiswell
Derec Brown a'r Racaracwyr

14 - Cor Philharmonic Caerdydd
Cyngerdd Nadolig
Y Greadigaeth - Haydn
Neuadd y Brifysgol, Corbett Road

15 - Y Twr Trafoli
Clwb Ifor Bach 8.00
Cardiau a charolau Nadolig

15 - Cor Poliffonig Caerdydd
Cyngerdd Nadolig
Eglwys Dewi Sant 7.45

16 - Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Rhieni ac athrawon Glantaf am 7.30 yn Eglwys yr Holl Saint (gyferbyn â'r ysgol). Coffi a mins peis wedyn yn yr ysgol.

18 - Clwb Ifor Bach
Tim Dartiau 8.00

19 - Clwb Ifor Bach
Tim Snwcer 7.30

19 - Cymdeithas Gymraeg Bro Radur
Parti Nadolig

20 - Clwb Ifor Bach
Steve Eaves a'r Band

21 - Clwb Ifor Bach
Yr Hwntws

24 - Capel Derwen Deg, Llysfaen
Cyfarfod Plygain
8.00 yr hwyr

28 - Clwb Ifor Bach
Ffenestri

31 - Clwb Ifor Bach
U Thant a'r Cenhedloedd Unedig
Meic Stevens a'r Band

IONAWR

4 - Clwb Ifor Bach
Noson o adloniant yng ngofal
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

7 - Clwb Ifor Bach
Tim Foli 7.30
Canolfan Hamdden y Tyllgoed

8 - Plaid Cymru Llandaf
Clwb Ifor Bach

9 - Clwb Ifor Bach
Ymarfer grwp Dawns Gwerin Twrch Trwyth

9 - Yoga gyda Falmai Evans
Festri Capel Bethlehem
Gwaelod y Garth.

11 - Parti Nadolig y Dinesydd
Neuadd y Sgowtiaid, Rhiwbeina

12 - Clwb Ifor Bach
4 yn y bar

13 - Merched y Wawr
Noson gyda'r dysgwyr

17 - Clwb Ifor Bach
Simon Fisher a'i Fand

20 - Cymdeithas Wyddonol Caerdydd
Clwb Ifor Bach

25 - Clwb Ifor Bach
Noson Santes Dwynwen
Pryd ma'r Te?

31 - Clwb Ifor Bach
Mynediad am Ddim

CHWEFROR

1 - Clwb Ifor Bach
Manna & Y Ficar

7 - Cymrodorion Caerdydd
Festri Ebenezer
Darlith gan Mr.T.J.R.Jones
Cadeirydd: Y Parch.Leslie Evans

7 - Clwb Ifor Bach
Maffia Mr.Huws &
Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr.

8 - Clwb Ifor Bach
Jim O'Rourke a'r Hoelion 8

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Chwefror at: Shân Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn IONAWR 16.

DIOLCH AM gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

*CALON LÂN*

**Da gan Philip Morgan a'i Fab, Cyf., allu dweud bod erbyn hyn ddau win bord 'Calon Lân'. Cyfuniad o winoedd Ewropéaidd wedi'i botelu yn yr Almaen ac o naws tebyg i Mosel yw'r 'Calon Lân' gwyn, a fu ar y farchnad ers blwyddyn a mwy. Cynnyrch Ffrainc yw'r 'Calon Lân' coch sydd newydd ddod ar y farchnad. Prif bwrpas cyflwyno'r gwinoedd hyn wedi'u labelu yn Gymraeg yw rhoi boddhad i'r bobl hynny y mae hi'n iaith gyntaf iddynt neu sy'n gyfarwydd â hi. Pris manwerth potelaid 70 centilitren o'r naill neu'r llall yw tua £2.00**




*MYFANWY*

**Gwin newydd arall â label Cymraeg arno ar resti Philip Morgan a'i Fab yw 'Myfanwy', gwin sych byrlymus a ddaw o Ffrainc. Pris manwerth potelaid 75 centilitren o'r gwin hwn fydd tua £3.45.**




**Gellir prynu'r gwinoedd yn y siopau gwin canlynol hefyd:**

**CARREFOUR, GALLEON WINE, MUNDAYS, SPAR, WINESELLERS ac AUGUSTUS BARNET**

**Philip Morgan a'i Fab Cyf., (sef. 1929)**
Prif Farsiandiwr Gwin Caerdydd
126, Wyndham Crescent, Caerdydd. Teleffon 31570

APÊL Y RHIENI

BYDD CWMNI Hwyl a Fflag yn perfformio ledled Cymru yn ystod y flwyddyn newydd gyda'r pantomeim "Go Fflamia". Dyma'r unig bantomeim Cymraeg fydd yn cael ei lwyfanou yn genedlaethol eleni.

Oherwydd anghydfod yr athrawon mae'n bosib y bydd rhaid diddymu'r perfformiadau bore a phnawn sydd yn cael eu mynychu gan bartion ysgol. Golyga hyn y bydd miloedd o blant yn colli'r cyfle o weld pantomeim eleni.

Mae Hwy a Fflag felly am lansio Apêl y Rhieni.

Rydym am geisio sefydlu rhwydwaith o rieni a fyddai'n barod i drefnu partion, nôl criw o blant ar ôl yr ysgol, ac yn y blaen. Mae'r cwmni yn barod i geisio trefnu perfformiadau unrhyw adeg os oes galw amdanynt, e.e. am 3.30 neu 4.00 ar ôl i ysgolion gau. Ar fore Sadwrn neu pha amser bynnag sy'n cael ei ofyn ohonom. Pe tae modd gwneud hyn, gallem fynd peth o'r ffordd tuag at sicrhau fod pob plentyn yn cael cyfle i weld y pantomeim, os na fydd yr anghydfod wedi dod i ben erbyn y flwyddyn newydd.

Mae'r sefyllfa bresennol yn dangos cymaint rydym yn dibynnu ar ewyllys da a chydweithrediad athrawon, a'r holl waith trefnu maent yn ei wneud ar ein rhan fel cwmni. Ond rhaid gofalu am y plant hefyd - un pantomeim Cymraeg sydd ar eu cyfer, ac fe gofiwn y siom dair blynedd yn ôl pan nad lwyfannwyd pantomeim o gwbwl.

Apeliwn felly at rywun sydd a diddordeb i gysylltu â Hwyl a Fflag, Canolfan y Tabernacl, Bangor. Ffôn - 0248 351140.

Bydd "Go Fflamia" ar daith trwy gydol mis Ionawr a mis Chwefror, gan gynnwys y canolfannau canlynol:
Theatr y Sherman, Caerdydd
Theatr Elli, Llanelli
Gwynfor Dafydd, Swyddog Cyhoeddusrwydd.

# PROFEDIGAETHAU

## Dewi Prys-Thomas

PRENTIS O BENSAER oeddwn yn nechrau'r pumdegau pan ddeuthum i glywed gyntaf am Dewi Prys-Thomas. Cofiaf yn dda gyrraedd adref, yn Ffairfach, Llandeilo, am benwythnos o Bontypridd a 'nhad yn dweud wrthyf fod yna dŷ anghyffredin yn cael ei adeiladu ar y ffordd rhwng Bethlehem a Llangadog - tŷ i Gwynfor Evans, llywydd Plaid Cymru oedd hwn - Talar Wen.

Rhaid oedd mynd i'w weld. Cael caniatad y contractor i edrych o gwmpas a chael cip ar y cynlluniau. Cefais wybod mai'r pensaer oedd Dewi Prys-Thomas, brawd Rhiannon, priod Gwynfor Evans.

Sylweddolais fod yr adeilad yma allan o'r cyffredin - yn y cyfnod hwnnw - a'i fod wedi'i gynllunio at bwrpas arbennig y teulu. Ymdoddai'r tŷ i dirwedd y llecyn gyda golygfa fendigedig o Ddyffryn Tywi.

Cofio eto, ychydig yn ddiweddarach, cyfarfod â Dewi mewn Ffair Nadolig gan Blaid Cymru yn Neuadd y Ddinas yma yng Nghaerdydd a chael sgwrs adeiladol ar gyflwr pensaerniaeth yng Nghymru.

Cofio Cynhadledd penwythnos yn Aberystwyth yn ystod Blwyddyn Treftadaeth Cymru a gwrando ar ddarlith feistrolgar yn ei ffordd unigryw ramantus yn olrhain celfyddyd y Celtiaid, gan ddangos cysylltiad arwyddocaol acenion englyn â phatrymau cymhleth Llyfr Kells - rhamanteiddio, efallai?

Cofio am gysylltiad Dewi a'r bartneriaeth yr wyf yn un ohoni a'i gyfarwyddiadau fel ymgynghorwr.

Cofio'n arbennig, fel llawer un arall a fu'n ciniawa yng nghyfarfod blynyddol Cymdeithas Penseiri Cymru, a Dewi yn offrymu gras:

O Arglwydd, dyro dy fendith ar
yr ymborth hwn,
Ac ar ymdrechion Dy benseiri
Dy ddirprwyon Di
Er creu Dy nefoedd yn ein gwlad.

Mae'n drist na chlywn y llais soniarus eto.



Ganwyd Dewi Prys-Thomas yn Lerpwl lle treuliodd tua ugain mlynedd o'i fywyd mewn cartref a adlewyrchai hanfodion Môn a Meirion, o'r lle yr hannai ei fam a'i dad. Ar ôl addysg elfennol ac uwchradd yn Lerpwl, bu'n fyfyriwr yn Ysgol Bensaerniol Prifysgol Lerpwl lle disgleiriodd, yn cipio gwobrau ac ysgoloriaethau di-ri a chael gradd dosbarth cyntaf mewn pensaerniaeth ac yn cynllunio.

Yn 1940 daeth i Gaerdydd i ymuno â phractis T.Alwyn Lloyd, pensaer adnabyddus iawn yn ei ddydd. Yn 1960, ar ôl bod ym Mhrifysgol Lerpwl am gyfnod, penodwyd Dewi yn bennaeth Ysgol Bensaerniaeth Cymru yng Nghaerdydd. Dros gyfnod o bymtheg mlynedd bu'n meithrin nifer fawr o fyfyrwyr yn y ddawn a'r grefft o gynllunio a tystia'r rhain eu bod yn drwm eu dyled iddo. Talwyd teyrnged odidog iddo yn ei angladd gan un o'i gyfeillion agosaf, Wyn Thomas.

Ni bu ei gynnyrch o adeiladau yn faith - oherwydd pwysau gwaith ei brif swydd fel pennaeth yn Ysgol Bensaerniaeth, ac ar ôl hynny ei ddyrchafu i'r Gadair. Ond bu ar gael ac yn barod i wneud sylwadau treiddgar ar unrhyw fater yn ymwneud â phensaerniaeth yng Nghymru. Dyna y tybiai oedd ei ddyletswydd cyntaf fel pennaeth yr unig ysgol bensaerniol yng Nghymru.

Deil Talar Wen o hyd yn enghraifft wych o dŷ Cymreig. Cynlluniodd "suite" delathrebu yn adeilad Shell yn Llundain, tŷ'r flwyddyn i Woman's Journal, a Thy Cyfarfod y Crynwyr yn Heswall, Cilgwri (Y Wirral).

Ym 1980 penodwyd Dewi i gynorthwyo pensaer Cyngor Sir Gwynedd i gynllunio pencadlys y Sir yng Nghaernarfon - tasg mae'n debyg iddo ei chwblhau o fewn chwe diwrnod wrth weithio bron bedair awr ar hugain y dydd oherwydd prinder amser.

Cyfraniad pennaf Dewi Prys-Thomas oedd iddo ddatblygu Ysgol Bensaerniaeth Cymru yn un o'r goreuon ym Mhrydain. Tystia canlyniadau'r myfyrwyr a gwaith y staff yn ystod y degawd diwethaf fod yr Ysgol yn un arbennig iawn.

Yn ystod ei ddyddiau cynnar yng Nghaerdydd mae'n debyg i Dewi ddarlledu'n gyson gyda'r BBC - cyn dyfodiad y teledu - a pherfformio gyda'r Cwmni Drama Cenedlaethol. Roedd ei dalent fel actor yn amlwg iawn yn caelei ddatgelu pan yn darlithio neu yn siaradwr gwadd ar ôl cinio. Roedd ôl saernio manwl ar y gair a lefarwyd, boed yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Trist yw meddwl na chlywir y llais eto.

Coffadwriaeth felys amdano a'n cydymdeimlad diffuant â'i briod a'i blant, ei chwaer Rhiannon a'r teulu i gyd.

Glan Roberts.

## Emyr Jones

BU FARW'R arolygydd ysgolion Robert Emyr Jones yn ei gartref yn Ffordd Ty Draw, Y Rhath, ar ôl cystudd hir. Roedd yn 58 oed.

Brodor o Gorwen oedd Emyr, a'i wreiddiau'n ddwfn yn ei ardal, lle mae ei fam yn dal i fyw. Roedd ei dad wedi bod yn gweithio ar fferm Llwyd o'r Bryn cyn symud i weithio ar y rheilffyrdd. Dilynodd Emyr ei dad, gan adael yr ysgol yn gynnar a mynd i weithio ar y lein. Ond roedd ganddo ddiddordebau eraill, a thalentiau amlwg. Dan ddylanwad arweinydd ysbrydoledig y Parchedig H.E. Jones) yn yr Aelwyd leol, aeth Emyr i lawr i Abertawe i gael ei hyfforddi'n Arweinydd Ieuenctid. Gwnaeth gymaint o farc ar y cwrs nes cael ei berswadio i wneud cwrs gradd yn y Gymraeg, a graddiodd gydag anrhydedd uchel. Bu hefyd yn Llywydd y myfyrwyr, ac yn amlwg fel adroddwr a sgriptiwr.

Hyfforddodd i fod yn athro, a chafodd ei swydd gyntaf yn y brifddinas. Ymrodd i'r ddrama, a chofir amdano yn bartner i Siân Phillips yng nghynhyrchiadau cwmni Herbert Davies o ddramau Saunders Lewis yn y 50au. Mae llu ohonom yn cofio'r wefr roddodd inni gyda'i berfformiad fel Marc yn "Gymerwch Chi Sigaret?". Fel yn achos Siân Phillips, roedd deunydd actor proffesiynol o radd uchel yn Emyr, ond chafodd y cwmni mo'r gefnogaeth anghenrheidiol gan Gyngor y Celfyddydau i droi'n un Cenedlaethol.

Roedd Emyr wedi symyd i fod yn Ysgrifennydd Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy yn y cyfamser, a hynny hefyd wedi ei ddwyn i berthynas â Saunders Lewis, hen ddarlithydd ar y ferch a oedd i ddod yn wraig iddo, Marian Arthur o Amlwch. Ei thad hi, testun englyn enwog gan Williams Parry, oedd y gweinidog ar deulu Emyr yng Nghorwen pan oedd o'n faban ac a'i bedyddiodd.

Symydodd Emyr yn ôl i'r gogledd i ddysgu yn Ysgol Friars, Bangor, priodi a mynd i fyw i ardal Benllech, ym mro ei wraig. Ond cyn hir roedd yn ôl yn Abertawe, yn darlithio yn y coleg hyfforddi yno. Rhoes hyn gyfle iddo ymwneud â'r Gymdeithas Ddrama, ac i ddarlledu ar y rhaglen "Trem".

Gyda Nia a Richard Hall-Williams, lansiodd Marian ac Emyr y cylchgrawn arloesol "Hon". Pan ddaeth yr Eisteddfod Genedlaethol heibio, llwyfannodd Emyr basiant tra llwyddiannus, "Hiawatha".

Cydnabuwyd ei dalentau fel addysgwr ac ysgogwr gan yr Adran Addysg, a'i benodi yn Arolygydd Ysgolion. Dechreuodd ar ei yrfa yng Nghaerdydd, gan fyw yn Llandaf. Symudwyd o i'r swyddfa ym Mangor, a bu'n byw ym Môn eto. Roedd yna blant erbyn hyn, yn dri mab: Arthur Emyr, sydd ar gyrion ein tim rygbi cenedlaethol; Dafydd, sy'n dal yn y coleg ym Mangor ac yn dilyn ei dad yn ei weithgareddau yn y theatr ac ar y teledu; a Garmon sydd newydd fynd i'r coleg yng Nghyncoed.

Rhyw bum mlynedd yn ôl galwyd Emyr yn ôl i'r Brifddinas, fel Arolygydd Staff, ac ymsefydlodd yn y cartref presennol. Cafodd gyfnod yn gofalu am Addysg Bellach Arbennig, yna'n ôl i Adran y Gymraeg. Trwy hyn i gyd arhosodd yn ddyn teulu hynaws, boneddig a ffraeth. Ac fe gadwodd ei gysylltiad â'i fro enedigol, er mai rhwng Môn a Morgannwg y bu'n tramwy fwyaf. Llynedd, yng Nglan y Fferi, bu'n darlithio ar bwysigrwydd bro ym mhatrwm diwylliant wrth arolygwyr newydd. Roedd yn brofiad gwefreiddiol i bob un a fu yno.

Fe gyfrannodd Emyr yn hael i fywyd y Brifddinas ac i Gymru gyfan, ac roedd ganddo gymaint i'w gynnig eto. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu.

Harri Pritchard Jones

# Arddangosfeydd IONAWR

ADOLYGIAD:

GWEN JOHN    Barbican, Llundain.

Erbyn hyn mae'r arddangosfa fawr o waith Gwen John wedi cau. Y mae llawer wedi ei ysgrifennu eisoes am yr arddangosfa ac am y ferch ryfedd honno o Sir Benfro, ac ni wnaf ymhelaethu yma.

Ond tybed faint o Gymry cafodd y cyfle i weld yr arddangosfa "un waith am oes" yma? Mae'r 125 o Dde Cymru yn ddigon cyfleus ond yn gostus iawn, ac yn dda i ddim i bobl y Gogledd! Gresyn felly na cyfle i'w gweld yng Nghaerdydd o gofio am y cysylltiadau Cymreig, ac yn enwedig o feddwl fod yr arddangosfa yn symud i Fanceinion ac wedyn i New Haven.

Fe'm synnwyd hefyd cymaint nifer y lluniau sydd mewn casgliadau preifat, ond yn fwy felly cynifer ohonynt mewn casgliadau cyhoeddus yn Lloegr o gymharu ag sydd yma yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Beth bynnag - mi gefis i'r fraint o ymweld â'r Barbican; prynu copi o'r catalog gwych o waith Cecily Langdale a David Fraser Jenkins a fu yma yng Nghaerdydd cyhyd, a chael syllu ar y lluniau rhyfeddol. Gyda llaw, fe lwyddais fynd ar y trên o Gaerdydd i Lundain am bedair punt. Dim gwobr am synhwyro sut!

Seiriol Davies.



Merch yn dal llyfr
Metropolitan Museum of Art, Efrog Newydd



Merch a Chath
Metropolitan Museum of Art, Efrog Newydd

TŶ TURNER, HEOL PLYMOUTH, PENARTH
21 Rhagfyr - 19 Ionawr 1986
Moelwyn Merchant: Gwaith Oes

Y mae Moelwyn Merchant yn adnabyddus iawn i nifer o bobol efallai am ei gysylltiadau yma yn Ne Cymru, â'r Eglwys yng Nghymru ac fel cyn ddarlithydd yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Da yw rhoi sylw i'w waith y tro hwn fel cerflunydd, sydd i'w arddangos ym Mhenarth - man priodol gan iddo fyw yno ar un adeg.

Yn ei ragarweiniad i'r arddangosfa, dywed ei fod yn gobeithio y byddai hi'n dangos ei werthfawrogiad i lu o'i ffrindiau, artistiaid, ysgolheigion ac offeiriad. Telir teyrnged hefyd i'r holl grefftwyr sy'n anhepgor i gerflunydd - bwrwyr metel, llathrwyr, weldwyr a gweithwyr gwydr. Y mae'r cyflwyniad hwn yn awgrymu nifer o'r meusydd amrywiol a chyfoethog y bu Moelwyn Merchant yn ymhel â nhw, yn ystod yr hanner canrif diwethaf. Mewn pamffledyn yn dwyn y pennawd "Cristnogaeth a'r Celfyddydau" a gyhoeddodd ym 1957 ar gyfer wyth o ddarlithoedd i'r Eglwys yng Nghymru fe ddywed: "Y gelfyddyd agosa at bensaerniaeth yw cerflunio...." ac hefyd, "y dylid Duw dderbyn ei ddegwm o waith creadigol dyn".

Edrychwn ymlaen at weld yr arddangosfa sydd wedi ei threfnu gan wasanaeth Celf ac Arddangosfa Sir Clwyd, ac ar daith dan nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru.

CHAPTER, Treganna
16 Tachwedd - 21 Rhagfyr

Arddangosfa o gerfluniau gan
Alain Ayers
Lorraine Gleave
Robert Kessler
Vincent Woropay

DRANNOETH Y cyfarfod rhwng Reagan a Gorbachev teimlwn fy hun yn dechrau gobeithio y gallem ni bobl gyffredinfynnu i'n harweinwyr ddod i'r afael o ddifrif a'r ras arfau.

Gwrandawais trwy fore Iau ar araith hir Gorbachev, ar frawddegau blinedig Reagan, a chynhadledd orlawn Gorbachev i'r wasg. Yna daeth y sylwebyddion, Jeffrey Stern, darlithydd economeg a gwleidyddiaeth David Schwarz, arbenigwr ar arfau o'r Unol Daleithiau, a llu o ohebyddion y BBC eu hunain.

Gwrandewais a darllenais bopeth dros y Sul hefyd. A collais fy awydd i ddweud na gobeithio dim yn swn yr holl arbenigwyr.

Ac eto, a hwythau wedi dod i gasgliadau mor amrywiol, teimlaf fod lle i ddinesydd cyffredin leisio barn.

Gofynnais i mi fy hun sawl gwaith, sut mae Reagan yn gallu bod mor feseianaidd ynglyn ag SDI. Rwyf newydd ddarllen erthygl gan bedwar gwyddonydd enwog o'r Union for Concerned Scientists yn y "Scientific American" ar Daflegrau Amddiffyn y Gofod (caiff eu llyfr ei gyhoeddu'n fuan). Pan ystyrir technolegau SDI yn fanwl gan y gwyddonwyr hyn, mae'n amlwg eu bod yn wallgo o ddrud, ac na allent fyth fod yn amddiffyniad perffaith i'r UD.

Felly, ai actio'n dda y mae Reagan pan ymddengys ei fod cymaint o blaid SDI? Dim ond er mwyn dwyn y Rwsiaid i drafod rheoli arfau o ddifrif? Does dim amau nad yw'r Rwsiaid wedi dechrau ymchwilio i ryw fath o SDI eu hunain hefyd, ond eu bod yn dychryn rhag y gost o'i adeiladu.



Gofynnodd David Owen yn wawdlyd yn Nhŷ'r Cyffredin, "Does the honourable lady not think that unilateralism should be abandoned by the Labour Party now?" Dyma John Biffen yn ateb ar ran y foneddiges "I agree that any agreement between Russia and the USA does not derive from the efforts of the Unilateralists"

Mae'n hawdd iddyn nhw fod yn wawdlyd, ac mae'n siwr fod cefnogaeth unol llywodraethau NATO i SDI a Cruise yn help i Reagan wrthsefyll Gorbachev. Ond tybed nad gwasgu o du'r mudiadau dros rewi'r Ras Arfau yn ei wlad ei hun sydd wedi gwneud cymaint o 'golomen' o Reagan, (ac nid cryfder diweddar yr UD mewn taflegrau yn unig)? Twyllo eu hunain mae Owen a Biffen os credant na chafodd y protestiadau enfawr yn erbyn arfau gan fudiadau led-led Ewrop unrhyw ddylanwad ar awydd Reagan a Gorbachev i siarad yn fwy nefol!

Tybed allwn ni eu gorfodi i weithredu yn fwy nefol hefyd?

Fe'n syfrdanwyd gan lwyddiant y mudiad dros y Rhewi pan oeddwn yn yr UD yn ddiweddar. Bum yn canfasio drosto o dŷ i dŷ a chael tua 80% o'i blaid yn Ann Arbor, Michigan. Croesawaf ddyfodiad y mudiad yma fel un i rai sydd yn methu mynd nor bell a'r syniad o ddiarfogi unochrog. Tybed a allem ddechrau cangen yng Nghaerdydd? Dywed John Cox o CND mai amheus yw cymhellion rhai o'i sefydlwyr yn Lloegr. Serch hynny, does dim yn rhwystro rhywun o CND rhag perthyn i'r ddau fudiad.

Gwen Jos

ATEBION PANTO'R PLANT

1. Asgell yr aderyn.
2. Cwrlen yn y gwallt.
3. Coes yr ymbarel.
4. Amser ar y cloc.
5. Smotyn ar y neidr.
6. Tafod y neidr.
7. Deilen ar y planhigyn.
8. Dwrn y drws.
9. Llinell ar y sgert.
10. Gwaelod y wal ar y chwith.

1. Uwd; 2. Menyn; 3. Bresych;

4. Madarch; 5. Moron; 6. Oren;
7. Lasagne; 8. Nionod.

Pws in Boots

Sian Helen


Gwynn

Am gopiau o weithiau comisiwn a darnau gosod eraill ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Ogwen 1986.

Cwmni Cyhoeddi GWYNN Cyf.,
Stad Ddiwydiannol
Penygroes
Caernarfon
(0286) 881797

# CROESAWU VOLODIA

RHYFEDD IAWN oedd gweld Volodia Kalinin, gŵr Elin Wyn Roberts, yn bopio'n hapus i sŵn y grŵp Ffenestri yng Nghlwb Ifor Bach ryw nos Sadwrn - ac yn anodd iawn credu mai dim ond yn wythnos ola' mis Hydref y cyrhaeddodd Gymru o'r Undeb Sofietaidd wedi priodi Elin nôl ym mis Ebrill eleni. Cwrddodd Volodia ac Elin ym 1982 tra roedd hi ar ei flwyddyn olaf yn y Brifysgol, ac yn gorfod treulio pump **wythos ym Moscow fel rhan o'i chwrs.**



**Roedd Volodia yn byw ym Moscow ar y pryd,** yn treulio'i amser yn chwarae gwyddbwyll. Cwrddodd y ddau mewn parti yn y ddinas, ac wedi dwy flynedd o lythyru brwd, fe ail-gwrddodd Elin a Volodia, yn yr Undeb Sofietaidd wrth gwrs, yn haf 1984 - a'r tro hyn fe benderfynon nhw ddod o hyd i esgus i dreulio mwy o amser yng nghwmni'i gilydd. Yr ateb amlwg oedd priodi - ond haws dweud na gwneud ....

O'r diwedd, wedi teithio i Foscow dair gwaith i drefnu'r briodas, aeth Elin yno fis Ebrill eleni, ac ar y degfed fe briododd Elin a Volodia. A dim ond wedi priodi Elin gafodd Vilodia wneud cais i adael yr Undeb Sofietaidd - ac o ystyried yr holl waith papur, casglu ac arwyddo amryw o ddogfenni swyddogol, yn ogystal â lletchwithder enwog y Sofietiaid, roedd chwech mis yn gyfnod byr iawn i ddisgwyl am ganiatad i adael y wlad. A hir iawn oedd y mis rhwng cael caniatad a chyrraedd y wlad hon - a ddylai Volodia yrru yma mewn rhyw "antique" o gar a fyddai'n werthfawr iawn y pen hyn? Neu a ddylai hedfan yma ar y cyfle cynta' posib - heb ffarwelio â'i deulu?

Ond fe gyrhaeddodd o'r diwedd, ac yn ôl ei wraig, mae'n syndod pa mor gartrefol mae Volodia yn teimlo, er gwaetha'r "culture shock" aruthrol a'r siom o ddarganfod nad yw cnwaraewyr gwyddbwyll ardal Caerdydd o'r un safon a fe - yn wir mae Volodia wedi cyrraedd rownd cyn-derfynol pencampwriaeth Ewrop "gwyddbwyll drwy'r post" (mae'r fath beth yn bod, wir i chi) a gan nad oes ganddo unrhyw alwad arall (heblaw ei fod wedi ei hyfforddi mewn seicoleg) mae'n gobeithio ennill tipyn o bres trwy rhoi gwersi gwyddbwyll i unrhywun sydd â diddordeb. Ond mae Volodia yn bwriadu ennill bywoliaeth cyn gynted â phosib - fe fydd yn chwilio am waith yn y flwyddyn newydd, ac mae'n gobeithio gwneud cwrs busnes yn y dyfodol. Yn y cyfamser, Elin Wyn sy'n cynnal y ddau, ac yn dweud mai'r galw mwyaf yw dillad newydd i Volodia - dim ond un ces o ddillad gyrhaeddodd ar yr awyren o Foscow gyda Volodia - mae gweddill ei eiddo, yn cynnwys ei ddillad, yn disgwyl gadael yr Undeb Sofietaidd ar long.

Fel 'da ni'r Cymry yn llwyddo dod o hyd i Gymro arall ym mhob cwr o'r byd, fe lwyddodd Volodia ddod o hyd i bedwar morwr Sofietaidd ar ei daith gyntaf ar ben ei hun i ddinas Caerdydd. A dyna sut mae Volodia yn treulio'i amser, yn crwydro ac archwilio'i gartref newydd. Braidd yn fach mae'n gweld Caerdydd i gymharu â Moscow, ond diddorol iawn fydd clywed ei ymateb wedi taith i fwrlwm Llundain! Mae Volodia yn gwneud pob ymdrech hefyd i wella'i Saesneg - sydd yn ardderchog yn barod - ond dyna'i esgus i wylio rhaglenni fel "Only Fools and Horses", ac i ddarllen llyfrau Frederick Forsyth wrth y dwsin! Ac mae'n bwriadu dysgu Cymraeg - os aiff i Glwb Ifor Bach am wersi, neu os gwelwn i yno'n bopio' rhy aml, falle bydd rhaid ail-enwi'r Clwb yn "Glwb Igor Bach" .....

# Addysgol

RHAID I Awdurdod Addysg De Morgannwg newid y penderfyniad a wnaed ganddi ar 21 Hydref a sefydlu Ysgol Uwchradd Gymraeg newydd ym Mro Morgannwg - dyna farn unfrydol cynhadledd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 16 Tachwedd.

Trefnwyd y gynhadledd gan Gell Caerdydd o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg a chafodd y cant a hanner a ddaeth ynghyd yn Adran Addysg, Coleg y Brifysgol, glywed barn sawl arbenigwr. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Cefin Capbell o Adran Efrydiau Allanol y Coleg, a chafwyd anerchiadau gan Toni Schiavone, Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg; Gwilym Roberts, unig arbenigwr ail-iaith llawn-amser ysgolion cynradd De Morgannwg; Michael Jones, Cadeirydd Rhieni Dros Addysg Gymraeg yn Ne Morgannwg; Emyr Currie-Jones, Cadeirydd Pwyllgor Addysg De Morgannwg; Owen John Thomas, Dirprwy Brifathro Ysgol Gladstone. Yn anffodus roedd Malcolm Thomas, Prifathro Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, yn methu a bod yn bresennol oherwydd salwch yn y teulu.

Roedd pob un o'r siaradwyr, ag eithrio'r cynghorydd Currie-Jones, yn unfryd o'r farn mai Ysgol Gymraeg newydd oedd yr unig ffordd o ddarparu ar gyfer twf addysg Gymraeg o fewn y Sir, a chefnogwyd y farn honno yn gref gan y gynulleidfa.

Uchafbwynt y cyfarfod oedd anerchiad Gwilym Roberts. Fel arfer, siaradai'n dawel a diymhongar, ond roedd ei ddarlun o hanes addysg Gymraeg yn y Briffdinas, wrth gyflwyno'r ddogfen "Y Gymraeg mewn addysg yn Ne Morgannwg - Yr Unfed Awr ar ddeg", yn gondemniad cignoeth o fethiant awdurdodau addysg, o bob lliw gwleidyddol, i ddarparu'n ddigonol ar gyfer anghenion y sawl sy'n dymuno addysg Gymraeg.

Wrth gyflwyno'r Cynghorydd Emyr Currie-Jones, diolchodd y Cadeirydd iddo ac fe'i canmolodd am dderbyn y gwahoddiad i ddod i "ffau'r llewod". Er iddo gyfiawnhau penderfyniad yr awdurdod addysg i ehangu Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ar safle hen Ysgol Waterhall yn y Tyllgoed (a hynny am resymau ariannol) cynigiodd rhywfaint o oleuni i wrthwynebwyr y cynllun. Dywedodd nad oedd y penderfyniad a wnaed gan yr awdurdod yn gynt yr wythnos honno yn derfynol.

Mynegwyd cefnogaeth gref hefyd i'r egwyddor o sefydlu Corff Datblygu Addysg Gymraeg. Mewn araith rymus dywedodd Tony Schiovane mai'r ddau brif reswm dros sefydlu corff newydd oedd er mwyn sicrhau cyllid ac adnoddau digonol ar gyfer addysg Gymraeg, a dysgu'r Gymraeg fel ail-iaith ac er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r arian a werir. Dywedodd nad oedd gan y Cyd-Bwyllgor Addysg Gymraeg bolisi iaith, a bod polisi iaith y Swyddfa Gymraeg yn well na pholisi'r Cyd-Bwyllgor.

# Colofn Shân Emlyn



MAE'R DOLIG yn dwad. Help! Arwydd sicr o henaint - ond yn y blynyddoedd dwytha 'ma, mae'r Nadolig yn dwad yn llawer rhy fuan. Roeddwn yn teimlo felly y llynedd a thros ginio un Sul fe gawsom orig ddifyr yn trafod mynd i ffwrdd i'r eira ac osgoi yr holl hwrli bwrli. Orig fer oedd hi - erbyn amser te rhywbeth yn debyg i hyn oedd y sgwrs.

Elin: "Wn i ddim ydwi i isio bod i ffwrdd dros Dolig chwaith, faso fo ddim 'run fath yn na fasa - dim coeden Dolig a'r hwyl o agor presanta."

Mari: "Fasa ddim rhaid inni wylio'r Cwin hefo Dr.Jagger (hen wraig ddaw atom bob cinio Dolig). Fasa ddim rhaid inni siarad Saesneg, nac ateb Yncl Prys ar y ffôn ar y dot o dri, a chlywed Dr.Jagger yn deud "What a peculiar time to phone". Ond wedyn, mae hynny'n rhan o'n Dolig ni yn tydi?"

Dad: "Dwi ddim mymryn o isio mynd i ffwrdd - mi fasa'n costio ffortiwn - 'd allwn ni ddim mynd ymlaen i wario fel hyn.....!"

Gwrando'n ddryslyd oeddwn i. Rhan ohonof yn ymfalchio mai Nadolig gartra oedd dymuniad y tri, a'r rhan arall ohonof jest â sgrechian ac yn deud yn ddistaw wrthyf fy hun "Wel ia, ond y fi fydd yn slafio a sgrealu!"

Digon tebyg yw fy nheimladau eleni, ac eto mae'n rhaid fy mod innau'n trysori'r Ŵyl deuluol hon. Eisoes mae mins peis tŷ ni a rhai Parti Nadolig y Dinesydd yn y rhewgell. Wn i ddim sut gacen gawn ni eleni - tra'n sgwennu hwn y mae Mari wedi mynd i Sainsbury's i hôl y cynhwysion - 'i champwaith hi fydd y gacen eleni. Pam? Mae 'na feirniadaeth leni ar f'ymdrechion i - nid i wneud cacen - ond ar ei haddurno. Nadolig Llawen mewn ysgrifen gwbwl grynedig, pob blodyn yn edrych fel atalnod wedi rhedeg a nifer o goed, Santa, carw a chelyn i guddio'r gwallau. Ambell i flwyddyn mae'r eisin pinc llawer rhy lachar, dro arall yn sobor o wan a bob amser mae'r cyfan mor galed fel bod angen yr hoover ar ôl torri pob pisyn!

Problem arall eleni - mae un o goesau'r bwrdd derw yn yr ystafell fwyta wedi torri, a rhywsut rhywfodd bydd rhaid cael rhywun i drwsio hwnnw. Sut yda ni'n bwyta rwan te? Mi ryda chi'n iawn - yn y gegin bob amser, ond ar achlysuron fel Dolig neu "swper crand" o dro i dro.

Mi rydwi'n siwr o gael un siars eleni. Rai blynyddoedd yn ôl, mi roedd 'na waedd pan âi Owen i'r drws i nôl llefrith - yn ogystal â'r llefrith roedd yno garton hanner peint o hufen dwbwl - a hynny bob dydd am gyfnod o rhyw bum niwrnod. Y waedd oedd "Pam yn y byd bod angen gymaint o hufen?" Yr ateb oedd "I fynd hefo'r mins peis". Llawer gormod oedd y ddelfryd a finna'n ychwanegu "Ia ond mae'r dyn llefrith yn trio ennill gwobr am werthu'r mwya o hufen". Wnai ddim manylu ar yr ymateb i hynny!

Mae'n siwr bod gan bawb i atgofion teuluol a'u harferion o Ddolig i Ddolig a bod yr atgofion rheiny'n dod i'r meddwl wrth baratoi ac yn ei gwneud hi'n werth chweil i ofalu y bydd y Nadolig hwn eto yn gofiadwy. Dolig Llawen i chi i gyd.



# ARGYFWNG YR URDD

CYMRU - CYD-DDYN - CRIST

1922- 1986(?)

BETH YW'R URDD I MI.....?

ARGYFWNG
YNTEU
HER?

APÊL AT GYN-AELODAU,
RHIENI A CHYFEILLION YR URDD

YMGYRCH ARIANNOL AR RAN
URDD GOBAITH CYMRU

MAE ANGEN CEFNOGAETH
ARIANNOL AR FYRDER
FYDD YN SICRHAU
INCWM RHEOLAIDD A
PHARHAOL.....HEBDDO
FE DDAW'R URDD
I BEN........

AI DYMA'N DYMUNIAD?

BETH YW'R URDD I MI?

Sefydlwyd yr Urdd ym 1922 gan Syr Ifan ab Owen Edwards ar gyfer plant ac ieuenctid Cymru.

Ei ddelfryd:
Gwasanaeth i Gymru, i Gyd-ddyn
ac i Grist.

Mae gan yr Urdd aelodaeth o dros 52,000 o blant a phobl ifanc mewn 1200 o Adrannau ac Aelwydydd. Ceir darpariaeth arbennig ar gyfer y Dysgwyr.

Gweithgareddau'r Urdd:

Eisteddfod Genedlaethol
Gwersylloedd
Neges Ewyllys Da
Cwmni Theatr Ieuenctid
Cylchgronnau

MAE'R CYFAN O DAN FYGYTHIAD!
A FYNNWN WNEUD RHYWBETH?
BYDDAI SICRHAU 5,000 O GYFRANIADAU
GWERTH £3 Y MIS YN GOLYGU £257,000
(dan gyfamod) POB BLWYDDYN I'R URDD
A YW HYN YN ORMOD I'W OFYN GENNYM.

BETH YW'R URDD I MI.....?

Fel cyn-aelod .....
... ei ddylanwad a'i gyfraniad gwerthfawr i nifer ohonom yn ein gwaith a'n bywyd.

Fel rhiant.....
... ei werth i'n plant - a'n hwyrion - trwy gyfrwng yr Adran, yr Aelwyd, y Gwersylloedd, yr Eisteddfodau.

BETH YW'R URDD I MI.....?

Dyma gyfle i ateb mewn ffordd ymarferol.

CYFAMODWN
Byddai cyfraniad misol dan archeb Banc gan bob cyn-aelod a rhiant yn sicrhau dyfodol yr Urdd. Am bob £1 a roddir mae'r Urdd yn derbyn 43c o ad-daliad treth incwm.

Bydd eich cyfraniad o...
£2 y mis yn werth £34.32 dros y flwyddyn
£3 y mis yn werth £51.48 dros y flwyddyn
£5 y mis yn werth £85.80 dros y flwyddyn

Apeliwn atoch i lenwi'r ffurflen gyfamod a'i dychwelyd NAWR os gwelwch yn dda.
Mae'n fater o frys - NAC OEDWCH
RHOWCH - ER MWYN YR URDD A CHYMRU

## CWMNI URDD GOBAITH CYMRU
### Gweithred Gyfamod

Yr wyf i ..........................................................................................
o ..................................................................................................
trwy hyn yn Cyfamodi i dalu i GWMNI URDD GOBAITH CYMRU ar y .......... dydd o ........... bob blwyddyn am bedair blynedd o'r dyddiad hwn, neu yn ystod fy oes, pa gyfnod bynnag a fyddo'r byrraf, y swm o ....... wedi tynnu ymaith y Dreth Incwm yn ôl y raddfa a fo mewn grym ar y pryd, y swm i'w dalu o'm cronfa gyffredinol o incwm trethedig, fel na fo i mi dderbyn unrhyw fudd personol neu breifat oddi wrth y swm uchod neu unrhyw ran ohono yn ystod y naill na'r llall o'r cyfnodau a nodwyd. FEL TYSTIOLAETH o hyn yr wyf yn gosod fy enw a'm sêl y .......... dydd hwn o ........... 19.......

Arwyddwyd, seiliwyd a throsglwyddwyd gan
.......................................................................................................
ym mhresenoldeb
Enw ...............................................................................................
Cyfeiriad .......................................................................................
.......................................................................................................
Galwedigaeth ................................................................................

### Archeb Banc

Y RHEOLWR
BANC ..............................................................................................
CANGEN .........................................................................................
TALER I GYFRIF URDD GOBAITH CYMRU - CYFRIF CASGLU (51059017) YM MANC MIDLAND CYF., ABERYSTWYTH, DYFED (40-08-09) Y SWM O £......... (                    )
YN AWR AC YNA YR UN SWM
* YN FISOL AR Y 1af O BOB MIS
* YN CHWARTEROL AR Y 1af O IONAWR, EBRILL, GORFFENNAF A HYDREF
* YN FLYNYDDOL AR Y 1af O ..................................................
(*) Dileer y cymalau amherthnasol
AM BEDAIR BLYNEDD (Y TALIAD OLAF FYDD AR Y ....................
LLOFNOD .......................................................................................
ENW LLAWN ..................................................................................
RHIF CYFRIF BANC .......................................................................
CYFEIRIAD ....................................................................................
.......................................................................................................
MAE'R ARCHEB HON YN DIDDYMU UNRHYW ARCHEB FLAENOROL
SYLW SWYDDFA YN UNIG
PWYSIG: Y CYFEIRNOD I'W NODI GYDA PHOB TALIAD ..............
DYCHWELER I SWYDDFA'R URDD, ABERYSTWYTH NID I'R BANC

# PROFIAD PLESERUS

Agorodd yr "Archfarchnad Degannau" Toys R Us yng Nghaerdydd yng nghanol môr o gyhoeddusrwydd ychydig fisoedd yn ôl. Rhaid dweud mai ychydig iawn o ddiddordeb oedd gennyf yn yr holl sôn amdano yn y dechrau, a hynny am y rheswm syml fod yr enw Toys R Us yn codi fy ngwrychyn yn llwyr. Meddyliwch amdano o ddifrif - beth mae o'n ei feddwl - yn enwedig a'i "R" yn wynebu am yn ôl! Na, doeddwn i ddim am fynd i wario fy arian mewn siop ag enw mor ynfyd. Ond dyna ni, mae'r cryfaf ohonom yn syrthio, ac wedi'r holl ganmol a rhyfeddu a glywais fy chwilfrydedd a orfu, a dyma fi yn mynd i "gael look" - jest i weld sut beth oedd yno, cofiwch, nid i brynu na dim byd felly ... A dyna ni. Dyna ddiwedd arni. Unwaith i mi fynd drwy'r drws gwelais pam fod pawb wedi dod oddi yno a llygaid fel soseri. I ddechrau, mae'r lle'n anferthol - cae peldroed o le, a phob cornel wedi'i lenwi a rhyw degan neu'i gilydd - rhesi o silffoedd yn estyn i fyny ac i fyny fel adeiladau Efrog Newydd, a gêm neu degan gwahanol yn edrych i lawr o bob cyfeiriad. Doeddwn i ddim yn gwybod fod y fath amrywiaeth o degannau yn bodoli ar wyneb y ddaear, a'u bod nhw i gyd mewn un siop ... mae'r peth bron yn ormod i feddwl dynol ei ddirnad! Ond draw a fi at yr adran fabis - nid at y tegannau, er bod llaweroedd o'r rheini yno, cofiwch, ond at y bwyd a'r dillad. Unwaith eto, amrywiath helaeth, ond wrth edrych ar yn tuniau "Cow & Gate" sylweddolais fod y siop yn mynd i fod yn rhan annatod o fy mywyd. Heb fynd i fanylion diflas, gaf eich sicrhau fod "Toys R Us" wedi pasio'r prawf anoddaf, ac wedi profi'i hun yn llwyddiant - roedd y bwyd a welwn i yma yn rhatach na'r un lle arall yng Nghaerdydd. Beth allai fod yn bwysicach na hynny?



A dyna ddechrau perthynas hapus rhyngof a'r archfarchnad - rwyf yn ffan go iawn erbyn hyn: er cofiwch mae ambell i fai yno. Yn un peth, byddai'n fantais i unrhyw ymwelydd â'r siop i fod yn chwaraewr rygbi gan fod mynd o un lle i'r llall bron yn amhosibl drwy ganol yr holl bramiau a buggys. Hoffwn pe bai'r rhodfeydd yn lletach - efallai y byddai llai o gleisiau ar fy nghorff wedyn!

Hefyd er mai Cymro Cymraeg yw'r rheolwr, yn ôl pob deall, fe fethais i a gweld unrhyw awgrym fod y siop yng Nghymru, o ran arwyddion a thegannau. Tybed a wnaiff hyn newid, ynteu a oes rhaid wrth ymgyrch ar ran y Cymry unwaith eto?

---

# TECELA

gan Meurwyn Williams

TRA ROEDDWN i'r Sul cyntaf o Ragfyr yn gwrando ar Ioan Pawl II yn dweud ei bishyn o'i falconi unig a phell, roedd storm wedi codi ym Mhrydain ynglyn ag adroddiad FFYDD YN Y DDINAS, Eglwys Loeger. Dinas o fewn dinas yw'r Fatican. Dinas grefyddol o fewn dinas seciwlar Rhufain, ac er fod eglwysi Rhufain yn niferus mae 'na wrth-glerigaeth fawr yno. Yn ôl adroddiadau'r papure mae clerigwyr Eglwys Loeger yn ganmil gwaeth na chlerigwyr Rhufain. Marcsaidd, milwriaethus, allan-o-gyswllt; roedd yr ansoddeiriau a ddefnyddiwyd i'w disgrifio wythnos gyntaf Rhagfyr yn niferus. Y joc i mi oedd fod llawer o aelodau'r Curia yn Rhufain yn tybied mai dyma'r union ansoddeiriau y dylid eu defnyddio i ddisgrifio offeiriaid De America, Ynysoedd y Philipines a mannau eraill lle mae'r eglys yn ymroi i gydweithio â gwerin gwlad i geisio cyfiawnder yn y gymdeithas leol.

Os yw'r arfau niwcliar yma mor ddiogel ar yr honnwch, medde Ynyswyr Marshall, pam na arbrofwch chi nhw ym Mharis; os yw'r tir mor sâl, medde pobl Canolbarth America, pam fod eich mwyngloddwyr mor awchus i'w brynu a'i wneud yn eiddo iddyn nhw'u hunain; os nad oes gan lywodraeth De Affrica ofn y byd oddi allan, pam fod Sun City mewn bod?

Ac os nad oes dim o'i le ar y mewn-ddinasoedd ym Mhrydain, pam fod y llywodraeth wedi bod mor awyddus i bardduo adroddiad Comisiwn Archesgob Caergaint, a oedd wedi'r cyfan, yn gwneud dim ond dadansoddi'r sefyllfa a cheisio gweld lle roedd cenhadaeth YR EGLWYS yn gorwedd yn y cyfan. (Fel mae'n digwydd roedd yr adroddiad yn argymell pethau tebyg i ....... ond dyna fe mae pawb yn gweld yr hyn fynno mewn adroddiad o'r fath!)

Ac onid dyna bwynt y cyfan? Gweld yr hyn a fynnwn ni fyddwn ni, boed hynny yn Adroddiad Eglwys Loegr, yn Synod Esgobion yr Eglwys Gatholig, yn Niwinyddiaeth De America, neu yn Adroddiad Undeb yr Annibynwyr Cymraeg! Neges y Nadolig yw fod Duw yn ei ras wedi gweld ein hangen unwaith am byth ac wedi anfon Iesu i'n byd. Ond a ydych chi'n cofio'r disgrifiad o'r Meseia gan Eseia - fe ddaw, meddai'r proffwyd, "i gyhoeddi rhyddid i'r caethion, i gyhoeddi blwydddyn gymeradwy yr Arglwydd", y Jiwbili. Ond mwy na hynny, ys dywed yr Athro Cyril Williams mewn pregeth ar Oedfa'r Bore yn ystod Grawys y Nadolig - mewn oes sydd wedi cynefino â Superman a Superted, fe gawsom ni un yng Nghrist sydd yn gwneud i'r blaidd drigo gyda'r oen, a'r llewpart yn gorwedd gyda'r mynn gafr. Dyna sydd yn Rhyfeddol am Fab Duw, dyna hefyd pam ei fod yn siarad a ni yng Nghaerdydd, a Synod Esgobion yr Eglwys Gatholig, a, leicio hynny neu beidio, dyna pam fod gydag e neges i'w chyhoeddi i gymdeithas ym Mhrydain sydd un funud yn llunio cyfreithiau i ddelio â hwliganiaeth, a'r funud nesaf yn arwyddo cytundeb gyda America i rannu mewn gwaith ymchwil Star Wars allai roi terfyn ar fyd cyfan, byd sydd yn rhan o greadigaeth Duw, byd yr ymddiriedwyd ef i'n gofal i'w barhau, nid i'w ddinistrio. A dyna pam y mae arnom ni angen gwrando eto eleni ar gan yr angylion, a mynd yng nghwmni'r DOETHION i Fethlehem.

Oherwydd hynny, Nadolig Llawen i chi.


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367




# YMLADD STEFFAN

Dewiswyd Rhodri Morgan, Swyddog Comisiwn Cymunedau Ewrop - y Farchnad Gyffredin - i ymladd dros y Blaid Lafur yn etholaeth Gorllewin Caerdydd yn yr etholiad nesaf.




Rhodri Morgan yn cwblhau Marathon Caerdydd mewn amser da. Tybed sut hwyl gaiff yn y ras i San Steffan?

---

Bu Morgan, sy'n 46 mlwydd oed ac yn enedigol o Gaerdydd yn aelod o'r Blaid Lafur ac Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol (T&GWU) ers dwy flynedd ar hugain. Yn ystod y cyfnod hwnnw bu'n dal nifer o swyddi o fewn y Blaid Lafur yn lleol a bu'n aelod o Bwyllgor Gwaith yr etholaeth ers 15 mlynedd. Roedd hefyd yn gyd-awdur y pamffled "Crisis in Steel" a gyhoeddwyd ym 1974, ac yn aelod cyfetholedig o Bwyllgor Gweithredu Gwaith Dur East Moors rhwng 1974/78.

Mae'n aelod o fudiadau Gwrth-Apartheid ac CND Cymru a'r Siartr dros Swyddi. Roedd yn un o sylfaenwyr Canolfan Cyd-Weithredol Cymru ac Asiantaeth Datblygu Caerdydd a'r Fro.

Gorllewin Caerdydd yw hen etholaeth George Thomas (Arglwydd Tonypandi bellach) - bu yntau ei ddal yn gadarn i Lafur ers 1945. Ond ym 1983, gyda'r cyfreithiwr David Seligman yn ymladd dros Lafur, cipiwyd y sedd i'r Ceidwadwyr gan Steffan Terlezki:

Gorllewin Caerdydd: (etholaeth 58,538)

| | |
|---|---|
| S.Terlezki (Ceid) | 15,472 |
| D.Seligman (Llafur) | 13,698 |
| J.Thomas (SDP) | 10,388 |
| M.Parri (Plaid Cymru) | 848 |
| G.Jones (Ecoleg) | 352 |
| Mwyafrif: | 1,774 |

# CROESI CAWSI CRIBYN

DYMA'R BENNOD OLAF yng nghyfres DUNCAN PUGH, dysgwr o Sidlow Bridge, ger Reigate yn wreiddiol, sy'n olrhain hanes enwau llefydd yng Nghaerdydd a'r cylch. Y tro hwn cawn fwrw golwg ar hanes Pwll Coch a Threganna.

WEDI CROESI Pont Elai, awn gyda'r afon at weithfeydd Wiggins Teape. Mae melin bapur wedi bod yn rhan o'r olygfa yma er blynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan nad oedd Pwll Coch ond twr o dai to gwellt o bobtu tafarn. Yn y tridegau meddai'r felin hon ar ei felinau ei hun yn Llychlyn - syniad o dreigl amser a ffawd economaidd y wlad efallai. Heddiw, sut bynnag, mae'n sefyllfa wahanol - ym mis Hydref cyhoeddwyd y bydd cant o weithwyr yma yn colli'u swyddi oherwydd prosesau newydd. A sylwasoch chi erioed ar arwydd y dafran yma?, y Tŷ Pwll Coch. Y chwedl y tu ôl i'r enw yw i'r pwll yma gerllaw afon Elai "lifo gan waed" wedi cad Sain Ffagan ym 1648.

Mae ffurf Gymraeg i enw heol mor ddisut a "Windway Road" hyd yn oed, sef heol Winsti. Daw'r gair hwn o hen air Saesneg yn golygu "boncyffion gwyw" - arwydd pellach o gymeriad gwledig y lle 'slawer dydd.

Petaen wedi gyrru ar hyd y ffordd dwmpathog a lleidiog hon mewn cart yn y ganrif ddiwethaf buasem wedi croesi Nant Cawsi Cribyn a gweld ffarm Cymdda Elai ar y chwith, lle mae Victoria Park Road West nawr. Tŷ traddodiadol o Forgannwg oedd e, wedi'i wyngalchu fel hen dy Blackweir, ond a tho gwellt. Yma y ganwyd Shemsyn Twrbil. Ynghyd â llawer o rai eraill, cafodd ei ddymchwel ddechrau'r ganrif yma trwy awdurdod y Tadau Dinesig. Nid erys ond y brasluniau o'r tai a wnaethpwyd gan yr archifydd yn y "Cardiff Records". Ffermydd eraill yn y cyffiniau oedd Gwelydd Gwynion ar y dde (Brunswick Street) ac Ynys Cedwyd ar y chwith (gyferbyn a phen Beda Rd.).

Erbyn hyn bydai'n wagenwr ni wedi cyrraedd pentre Treganna (oni buasai cyflwr y ffordd yn drech nag ef!) Santes o'r chweched ganrif oedd Cana, merch brenin Morgannwg. Yn Llydaw, bydd y plwyfi a enwyd ar ôl Santes Cana yn cynnal gwleddau llawen ar 10 Mawrth, sef ei diwrnod coffad. Yn Nhreganna y prif ddydd gŵyl y dyheuai pawb amdano oedd Ffair y Sulgwyn ger Llandaf. Fe'i caniatawyd i Esgob Llandaf gan John, brenin Lloegr, ym 1205.

Ysywaeth cymaint fu'r meddwi nes darbwyllo ffyddloniaid capeli'r plwyf i ddechrau gwrthsefyll y miri; a dirywio fu ei hanes hyd 1858, pryd yr agorwyd y farchnad wartheg sefydlog ym Market Road.

Mae'n rhyfedd cymaint y gellir ei ganfod o Gymreictod y pentre wrth grafu dan enwau'r heolydd. Mae Atlas Road yn coffau Atlas Farm ger Cymdda Treganna ond Tŷ-Rhys-y-Gwaydd oedd ei henw i'r Cymry! Nid nepell yr oedd pwmp a'r maenordy ar bwys Atlas Place, a'r felin ar ben Heol-y-Felin (Alexandra Road), ymddengys fel petai'n bentre gwledig bron.

Canol y gymuned oedd hen adeilad y Canton Cross Vaults, a'i enw yn mynegi sefyllfa croes y Canol Oesoedd, efallai. 'Ryn ni yng nghroesiad yr heolydd i Lecwydd, Caerdydd a Llandaf, i gyd yn llwybrau pwysig ers amser maith. (Tebyg iawn y byddid gan y Rhufeiniaid garreg filltir yma er mynegi i'w llenfilwyr y pellter oedd rhaid teithio ar hyd y sarn.) Yn nes at ein hoes ni, bu'r dafarn yn hunan-gynhaliol ar un adeg, a bragdy yn y "Vaults". Dychmygwch cael eich "cloi i mewn" yno ryw noswaith! Sylwer ar yr arwydd ardderchog gan Welsh Brewers o hen groesffordd wledig.

Lawr ger y ffordd i Lecwydd saif Ysgol Kitchener Road. Golwg diniwed sydd arni heddiw (oni foch chi'n blentyn, bid sicr), ond wedi Awst 1914 fe'i llenwid a dioddefwyr ynfydrwydd Fflanderys. I lawer ohonyn nhw y muriau hyn oedd y rhai ola y gwelen nhw byth.

Nodwedd arall o Dreganna yn y dyddiau cynt oedd hen dderwen urddasol a dyfai'n agos i safle Tesco heddiw. Crogid droseddwyr oddi arni, yn cynnwys benyw yn 1791, y fenyw cynta ym Morgannwg i'w chrogi er 203 blwyddyn. Efallai y gellid cymharu'r adloniant "byw" hwn a "video nasties" heddiw? Ond o ddifri, mae'n rhaid yr oedd yn rhybydd ofnadwy i droseddwyr, y ffordd o weld gelanedd yn grog ymhlith y mes. A chofiwch yr anfonid dynion i'r crochbren am ladrata ceffyl yn unig y dyddiau hynny!

Gyda thwf y diwydiant y glo yn y 19eg ganrif daeth mewnfudwyr: gweithio ar y rheilffordd neu yn y porthladdoedd oedd eu bwriad. A'r hwn oedd cychwyn adfywiad trefol Treganna.

Capel y Bedyddwyr, Heol Llandaf, oedd yr addoldy cynta iw adeiladu yn Nhreganna yn 1853, sef dwy flynedd cyn yr eglwys. (Hyd hynny byddid yn mynd i Landaf neu Gaerdydd.) Sylwer mai Cymreig a Chymraeg oedd y capel wrth ei gychwyn, rhan o'r mudiad Ymneilltuol. Cawn ni ryw syniad, felly, o wir cymeriad Treganna hyd at flynyddoedd 60au'r ganrif diwetha; yn araf bach y mor-gapteiniaid a boneddigwyr y GWR a ymgartrefodd o amgylch eglwys Sant Ioan. Yn eu sgil daeth lluoed o Wlad-yr-Haf a thramor. Ond cynhelid gwasanaethau Cymraeg yng Nghapel y Bedyddwyr hyd y Rhyfel Byd Cynta. Mae gan y capel "New Trinity" ar y "cawsi" ei hanes hefyd. Mae'n tarddu o achos cynta'r Ymneilltuwyr yng Nghaerdydd - fe'i adeiladwyd yn wreiddiol drws nesa i'r "Horse and Groom" yn Heol Womanby yn 1696; yn 1894 yr adeiladwyd y capel newydd yn Nhreganna. Erbyn hynny 'roedd capel i'w gweld ymhob rhan o'r brif heol.

Pe taen ni wedi para i fynd tuag at Gaerdydd y ganrif diwetha, buasen ni wedi mynd heibio'r hen dafarn "Little King's Castle" - y tu ol i'r dafarn bresennol, yng nghanol caeau gleision - a throlio dros Nant Canna. Ymddolennai'r nant yma o Bontcanna hyd Saltmead, ac fe nodai ffin bwrdeisdref Caerdydd am dros 800 mlynedd ar ol amser y Normaniaid. Mater o wladychwyr o Saeson y tu fewn a "Taffs" y tu fas, fel petai!

Y mae chwedl yn son am ymgais Oliver Cromwell ei hun i beledu Castell Caerdydd dros tri niwrnod o safleoedd rhywle ger Nant Canna. Ac yn ol chwedl arall yr oedd gwrthgloddiau isel yng ngerddi y plasty "King's Castle" gerllaw. Awgryma enw hynod y ty a'r hanesion bondigrybwyll, mai oddyma y taniodd magnelau Cromwell.

Safai'r "King's Castle" moethus o fewn tafliad carreg i'r "union Workhouse". Tynged ofnadwy i'r tlodion a dyledwyr oedd gorffen eu rhawd yn y Wyrcws mewn amodau oedd cymaint gwaeth na charchardai heddiw. Bellach mae Ysbyty Dewi Sant ar y safle - ar briffordd y pererinwyr i Dy Ddewi, bid sicr!

Dros y caeau o hen felin wynt tua'r gogleddd i ferai Nant Glas (neu "Glais"), trwy fferm o'r enw Glaspwll (i'r deau o Ryder St.). Yn ddiweddarach gelwid y fferm yn Blas Twrton, a'r nant fach yn "Nant Twrton" ynteu "Nant Ty Gwyn", ar ol fferm arall gyfagos (gyferbyn y T&GWU ). O'r diwedd llifai'r Glais i mewn i Daf yn Brook St. yn y rhan o Lanyrafon (Riverside) a elwid gynt yn "Cardiff Green". Mae tafarn y "Coldstream" yma'n falch iawn o'i huniau yn arddangos milwyr y "Coldstream Guards" - ond ai dyma tarddiad gwir yr enw? Tybed...

Am ganrifoedd ystyrid Pont Ty Gwyn dros y nant hon (ger "Rawden Place") fel y nod tir ola cyn croesi afon Taf.

Telid toll Pont Treganna ( neu Bont Caerdydd- mae'n hen ddadl) cyferbyn a'r City Temple heddiw. O'r bont gellid gweld pysgotwyr yn glanio eu eogiaid ger y man y mae gwesty'r "Royal" heddiw. Hyd at 1825, defnyddid cyryglau i rwydo'r eogiaid, a oedd yn fwyd rhad a thoreithiog bryd hynny! Safai pont y Canol Oesoedd tua 80 llath i'r gogledd o'r bont presennol, ger priordy'r Brodyr Llwydion. Am mai pren oedd hi hyd 1582, 'roedd hi'n wichlyd iawn, a byddai darnau byth a hefyd yn cwympo:

> "Mae Taf yn afon rhwyfus,
> Mae Taf yn dra pheryglus;
> Taf a ddygodd fywyd cant,
> Mae'n llifo bant echrydus."
>
> (Cadrawd)

'Doedd y bont garreg cynta (1582) ddim yn eithriad chwaith. Fe'i niweidwyd yn ystod y Rhyfel Cartre ac yn fynych wedyn gorfodwyd pawb i ddefnyddio ceubal ("ferry-boat") fel yn y Gabalfa. Yn 1796, symudwyd y bont i'w safle presennol, ond heb gael gwared a'i llu o broblemau: mae sail hon i'w gweld ar y lan chwith o hyd!

O'r bont cynharaf y rhedai heol rhychlyd "West St." dros "Coopers Fields"; bryd hynny bu tai ar ei hyd, lle 'does dim ond glaswellt a blodau 'nawr. O dan yr heol llifai nant y crwynfa diflanedig, yn rhoi croeso llymsur i'r teithiwr blinedig fel y nesai at y ddinas; wedyn pont fach arall a'n dygai dros nant y felin sy'n rhan o ffos y castell. Galloch chi weld ffrydiau'r felin o hyd, i'r dde. A dyma ni'n cyrraedd Borth Meisgyn (porth y gorllewin), a ail-adeiladwyd yn ddiweddar yn ei osodiad ysblenydd yng nghysgod y castell. Ar y plac yma sonnir am osgordd angladd Dic Penderyn oedd yn filltir o hyd ... ac ymosodiad Owain Glyndwr ar y porth hwn, pan lwyddodd i gipio dinas a chastell Caerdydd ill dau.

**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

A ydych yn priodi eleni?
Ffotograffiaeth Creadigol gan

**GWENAN**

**CAERDYDD 732233**

Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.

# TYNNU LLUN TRELAI

YN HEOL CAERAU, heb fod ymhell o'r ganolfan chwaraeon yn Nhrelai y mae sefydliad Barnado wedi codi adeilad pwrpasol i weithredu fel siop cymunedol, ac uwch ei ben ceir swyddfa, stiwdio ffotograffiaeth ynghyd ag ystafell dywyll helaeth. Bob dydd o'r wythnos ar wahan i ddydd Sul fe welir grwpiau o bobl a phlant wrthi'n brysur yn tynnu lluniau ac ymhel â holl offer stiwdio.

Yr hyn sy'n arbennig am y gweithgarwch yw'r ffaith mai cyflawni agwedd o waith cymdeithasol y mae'r gwaith ymarferol hwn, ac eto'n rhoi cyfle i bob math o bobl ymddiddori, i ddysgu, ac i ymarfer y gelfyddyd o ddefnyddio camera i safon uchel iawn.

Dibynna llwyddiant menter o'r fath yn aml iawn ar allu a brwdfrydedd yr arweinydd, a dyna sydd yn wir am yr hyn a geir yma drwy ymroddiad Martin Roberts. Yn ogystal â'i waith personol fel ffotograffydd proffesiynol y mae Martin yn treilio llawer o'i amser yn hybu'r fenter, yn denu pobl, yn eu dysgu, ac yn fwy pwysig yn llwyddo drwy ei frwdfrydedd i gadw'r diddordeb yn mynd yn ei ddisgyblion. Ymysg y grwpiau sy'n defnyddio'r cyfleusterau fe welir plant ysgol o bob oed, pobl ifanc dan anfantais meddyliol ac hyd yn oed grŵp o blant o ysgol feithrin Trelai. Bu Martin yn gwneud y math yma o waith ers saith mlynedd ac yn nabod ei bobl yn dda, a hwythau yn ei nabod yntau a'i waith yn dda. Efallai mai un o'r rhesymau am ei lwyddiant yw ei fod wedi dod yn gymaint rhan o'r gymdeithas.

Yn ogystal â'i waith i Barnado y mae Martin Roberts yn Artist Preswyl yn Nhrelai dan nawdd y Gymdeithas Celfyddydau De Dwyrain Cymru. Erbyn hyn y mae ganddo gasgliad o luniau du a gwyn sy'n cyfleu ei syniadau fel artist am y gymuned, yr amgylchfyd, ac am agweddau o fywyd trigolion Trelai.

Dyn ifanc yw Martin Roberts yn hanu o ardal Tregarth yn ymyl Bethesda. Mab fferm Moelyci, disgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen, sydd wedi datblygu i fod yn ffotograffydd proffesiynol. Er iddo ddilyn cwrs Gwyddoniaeth Biolegol ym Mhrifysgol Warwick cafodd ei hun yn troi fwy a mwy at y cefyddydau gweledol.

Ceir enghreifftiau o waith Martin mewn cylchgronnau megis Link, ac eleni bu'n gyfrifol am holl luniau Catalog Celf a Chrefft Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd.

Os ydych yn byw yn ardal Trelai ac am wybod mwy am y gweithgarwch yn siop Barnado, galwch i mewn. Os nad ydych yn byw yno, rwy'n sicr y cewch groeso os oes gennych ddiddordeb mewn unrhyw agwedd o'r fenter, ac yn enwedig yn ngwaith y dysgwyr a gwaith Martin ei hunan.

BARNADO: Siop Gymunedol, 36 Heol Caerau, Trelai, Caerdydd, CF5 5HQ. Ffôn 593440.

Seiriol Davies.



UCHOD: Gwaith un o fynychwyr y ganolfan - "Joan Adams" gan Francis Dooley.

ISOD: Gwaith Martin o'i brosiect fel Artist Preswyl - "Car yn Afon Trelai" (Ford efallai?)



# PANTO'R PLANTOS

Dewch i'r Pantomeim am dipyn o hwyl a sbri!

Ceisiwch wneud cynifer o eiriau ag y medrwch gan ddefnyddio llythrenau o'r gair

PANTOMEIM

Cofiwch - peidiwch a defnyddio'r un llythyren fwy nag unwaith, a dim enwau pobl na llefydd. Dylwn eich rhybuddio fod Gruff y ceffyl wedi darganfod dros ugain, felly ffwrdd a chi ar garlam!



Dyma ddwy o chwiorydd hyll Sindyrs. Edrychwch yn ofalus ac fe ddylech ddarganfod deg gwahaniaeth rhwng y ddau lun.

Darluniwch eich wyneb ar ôl un o gymeriadau'r Panto neidio oddiar y llwyfan a'ch dychryn.




Beth am bryd o fwyd ar ol y Panto? Mae enwau gwahanol fwydydd yn cuddio ym mhob un o'r brawddegau hyn, e.e. "Aeth Tom ato ar ôl y Pantomeim":

Fe gafodd Huw dren gan Sion Corn.
Mae'r Amen yn gorffen emyn.
Ychwaneg o bres, ychwaneg o bres i'r athrawon!
Does dim adar chwim yma.
Ar Sir Fôn mae'r môr o'n cwmpas.
"Oes golwg o'r enfys?", gofynodd Noah.
Sgert las Agnes yw hon.
Dynion od sy'n smygu.





Dangoswch y ffordd i Hugan Goch Fach i dŷ ei nain.



Ym mha bantomeim y gwelir Ricky Hoyw mewn siop fferyllydd?

Ble yn y byd mae hwn? Mae'r adeilad hwn rhywle yn y Brifddinas. Efallai y byddwch yn ymweld a'r lle yn ystod y gwyliau. I beth tybed?
Atebion i'r Dinesydd, 3 Llandennis Ave., Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD, erbyn Ionawr 16 1986.



Tybed beth yw enw'r wrach yma sy'n gwthio i Bantomeim y Dinesydd? Mae ganddi ddau enw.

Atebion ar dudalen 4



# BWTH RUTH



BOBOL BACH - mae'n ddiwedd 1985 ag wrth i mi sgwennu hyn o lith mi rydw i'n paratoi i fynd i Steddfod yr anifeiliaid yn Llundain - mae'n wythnos Smithfield. Yn ôl yr hyn yr ydw i wedi 'i ddarllen yn y Wasg ac wrth gasglu gan fy ffrindiau sy'n amaethu, mae'r flwyddyn diwethaf 'ma o gwotau a'r tywydd garw wydd wedi cael effaith andwyol ar sulwair, gwellt a grawn wedi gwneud ymweliad â'r sioe i gystadlu yn rhy ddrud i lawer o'r ffermwyr.

Dwi'n falch iawn o fedru deud fodd bynnag fod nifer y gwartheg duon yn uwch nag arfer, a does dim yn fy mhlesio i yn fwy na gweld gweld y gwartheg hardd yma yn cael eu dangos gerbron y byd (gan mai ffenest siop i'r byd amaethyddol ydy'r sioe). Llygaid mawr brown, blew amrannau hir cyrliog, anifeiliaid nobl hefo'u cotiau cyrliog du - mi allwn delynegu yn hir am ein gwartheg hardd sy'n byw ar ein tir uchel a garw ym mhob tywydd.

Ar nos Sul cynta'r sioe mi fydd yna wasanaeth anenwadol i agor y sioe, ag un o ficeriaid ardal Earls Court yn cymryd yr awennau - profiad anarferol iawn iddo mae'n siwr. Meddyliwch am y sefyllfa - swn canu carolau yn dod o'r sgwâr arddangos a hwnnw ynghanol peiriannau enfawr Massey Ferguson, Case, John Deere a Claas heb sôn am frefiadau'r gwarthegyr ochr draw.

Dyma'r wythnos sy'n gwneud i mi sylweddoli fod y Nadolig yn agos iawn - mae'n dod â'r teimlad o banic ar lefel ymarferol - yr holl bethau sydd heb eu gwneud!! Ond, mae hefyd yn cynhesu 'nghalon wrth sylweddoli byddyna gyfle i glywed a darllen yr holl gerddoriaeth, caneuon a llenyddiaeth sydd wedi ei sgwennu ar gyfer y rhan yma o'r flwyddyn - tybed faint ohonoch chi sy'n gyfarwydd â'r gerdd hyfryd gan y Parch Gwilym Morris, Gwaelod y Garth - mi leiciwn ie rhannu hefo chi:

Nadolig

Mae min ar yr awel heno, Mair  
Mi gasglaf ychwaneg o wellt a gwair.  
Gwasg dy anwylyd yn nes at dy fron,  
Gresyn ei eni ar noson fel hon

Mae'n wylo eto, a thithau'n oer,  
A dynion mor bell oddi wrthym a'r lloer  
Pa beth a ddaw o'r un bach nis gwn,  
Gresyn ei eni i fyd fel hwn.

'Rwyt tithau'n wylo fy ngeneth drist  
Ond derfydd dy ddagrau pan ddelo'r Crist.  
Wylo mae'r baban sydd yn dy gôl,  
Gresyn ei eni i fyd mor ffôl.

Mae Cesar yn ddiddos o fewn ei blas  
Ac Herod yntau'n ymffrosrio mewn tras.  
Mae nyth gan yr adar a'r preiddiau'n glyd,  
Nyni o bawb sydd dristaf ein byd.

Ond pan ddychwelwn a thithau'n iach,  
Bydd croeso yn Nasareth i'r un bach.  
Ond gwell iti beidio â sôn yn y dref  
Mai yn y preseb y ganed ef.

Gwilym Morris.

# AGOR SIOP

Mae 'na aroglau newydd, braf i'w clywed yn ardal Pontcanna - aroglau'r cigoedd a'r caws, y perlysiau a'r sbeis sydd i'w cael yn siop delicatessen "Bowen & Davies" yn 123, Heol yr Eglwys Gadeiriol. Perchnogion y siop newydd yw Elizabeth Talfan Davies a Helen Bowen, dwy gyn-ddarlithwraig a benderfynodd ym mis Awst eu bod nhw am fentro ar eu liwt eu hunain i fyd busnes.

Gan fod y ddwy wedi bod yn edmygwyr mawr erioed o'r siopau "charcuterie" Ffrengig a "gan fod yn rhaid i bobl fwyta" dyna setlo ar agor siop, heb fod ymhell o gaeau Llandaf i werthu bwydydd a gwinoedd o'r safon ucha' gan gynnwys cynnyrch lleol a Chymreig (llaeth gafr, er enghraifft, a dewis da o gaws). Er nad ydyn nhw ddim yn arbenigo mewn bwydydd "iechyd" fel y cyfryw fe gewch chi yno borc neu ham sy'n gwbl rydd o ddefnyddion artiffisial a menyn fferm, organig sy'n blasu'n union fel menyn "stalwm".

Agorwyd y drysau ar 6 Dachwedd ar ôl deng wythnos galed o gynllunio (gyda chymorth Gwenda Griffith) a phaentio a thwtio. Heddiw mae'r siop yn chwaethus, ddeniadol gyda'i rhesi o silffoedd gwyrdd tywyll yn llawn o nwyddau i dynnu dwr o'ch danedd.

Eu gobaith yn y dyfodol yw ychwanegu bwydydd wedi eu coginio at y stoc presennol ond ar hyn o bryd mae'r ddwy yn brysur dros ben ac yn teimlo eu bod nhw'n helpu i lanw bwlch yn narpariaeth siopa'r ardal.

Pob hwyl i "Bowen & Davies".


R 'Ral Te... OC

Gwahoddiad i bobl ifanc ddod i HTV i weld grwpiau cyfoes Cymru yn perfformio

CYSYLLTWCH Â NI AM RAGOR O FANYLION

HTV CYMRU

SWYDDFA CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS  
HTV CYMRU  
Y GANOLFAN DELEDU  
CROES CWRLWYS  
CAERDYDD CF5 6XJ

Ffôn Caerdydd 0222 590241 neu 590243




MAE'N AMSER unwaith eto i feddwl am brynu anrhegion Nadolig - dyna broblem, ynte? Beth alla'i brynu i fy mam yng nghyfraith, Modryb Siwsi sy'n bedwar ugain oed, a'm hen lanc o gefnder? Rwy'n siwr bod nifer ohonoch mewn sefyllfa debyg. Hoffaf roi anrhegion doniol neu ddefnyddiol i'm perthnasau a'm cyfeillion, treuliaf dipyn o amser yn meddwl ag edrych am bethau addas. Trueni weithiau na fyddai rhai o'r anrhegion a dderbyniaf wedi cael eu dewis gydag ychydig mwy o ofal - dwi'n gwybod byddaf yn rhoi sawl cyfraniad i stondin "Prynu a Gwerthu" mewn rhyw ffair neu gilydd yn y flwyddyn newydd.

Tybed beth fyddech chi'n gwneud hefo £20 ychwanegol i'w wario'r Nadolig hwn? Prynu anrheg i'ch hunan, neu rhoi rhywbeth i gyfaill neu rhywun na fyddai fel arall yn derbyn anrheg ganddoch? Dyna'r cwestiwn ofynnais i bedwar o ddinasyddion "adnabyddus" Caerdydd. Darllenwch ymlaen i weld eu hymateb (diolch iddynt am eu cyfraniad).

Wrth feddwl fy hunan am y £20 ychwanegol, mae'n anodd dewis un peth arbennig i'w brynu. Llynedd fy nith a'm nai fyddai wedi cael yr arian gennyf, roedd eu tad yn un o lowyr Cymru oedd ar streic. Daw hyn at fy newis cyntaf - rhoddwn ddarn o lo (un o'r rhai olaf efallai) o byllau Cymru i Ian McGregor.

Ar nodyn ysgafnach, dewisiwn hefyd roi :
- Bocs o "soft centres" i ddetholwyr tim rygbi Cymru
- Crib i Bob Geldof
- Ysgol i Neil Kinnock iddo gael cyrraedd y ffens gan ei god yn hoff o eistedd arni.
- Copi o lyfr Dickens "Carol y Nadolig" i Nigel Lawson!

£20 Emyr Huws Jones (Ems Taflen)

A deud y gwir, dydy £20 ddium yn lot, nac ydy, ond ..... Taswn i'n gwario'r arian am anrheg i rhywun y tu allan i'r teulu efallai mai ciw snwcer i Cen Williams fasa'r syniad gora, i'w orfodi i chwilio am esgus newydd dros golli heblaw "Ciw cam".

Mae fy nheulu yn werth mwy nag £20, felly bod yn gwbwl hunanol fuaswn i a rhoi'r arian tuag at docyn tymor i'r Nefoedd, sef Old Trafford (cyn belled ag y byddai'r Dinesydd yn talu fy nghostiau bob pythefnos!)

£20 Rhodri Gwyn

Tybed pa mor aml ym eich tŷ chi y clywir y gŵr (neu'r wraig os ydy o'n mynd â'r ffansi) yn gwaeddi a rhuo yn y bora pan na fedrith o ffeindio'i drôns yng nghanol y sana a'r teits a'r biwmars yn y cwpwrdd. Wel mae'n digwydd o leia' saith gwaith yr wythnos yn ein tŷ ni - bron iawn bob bora ddeudwn i!

"Lle mae'r rhai piws 'na roddodd mam i mi ar fy mhenblwydd yn ddeunaw oed?"
"Wyt ti ddim yn gwisgo rhina eto!"
"Pam? Achos taw mam nath eu prynu nhw i mi?"
"Naci - achos eu bod yn y bin"
"Yn y bin! Ers pryd? Pa ddiwrnod ydi hi heddiw - diwrnod gwagio biniau! Dydyn nhw heb fod yma eto, nac ydyn nhw". Mi fuasent wedi gneud i finau car ne rwbath tebyg"
"Be am y rhai coch ta?"
"Tylla yn rheini"
"A'r rhai glas - ydy rheini yn y bin hefyd?"
"Lastig wedi mynd- mae rheini wedi taflu ers mis."
"Be dwi'n mynd i wisgo i fynd i'r gwaith ta? Mae'n gyfyng arnai yntydi"
"'Sgin ti jock strap?"

Yr un ydy'r sgwrs bob bora, yr unig wahaniaeth ydy fod y tronsia yn mynd yn llai. A dyna ddwad â mi yn daclus at anrhegion Nadolig a'r siars iwario £20 ar unrhywbeth a ddymunaf. Mae'n syml, yntydi - taith fach gyflym i Marks & Sparks a phrynu gwerth £20 o dronsia - rhai gwahanol liwiau a phatrymau wrth reswm. Nadolig Llawen.

£20 Y Parch.T.J.Davies

Ma cynnig £20 i Gardi fel lluchio ffesant i ddannedd llwynog newynnog. Fe'i bacha ag angerdd a'i warchod. Caws o fola ci yw ceisio ei gael oddiwrtho. Siawns na chyfeiriwn fy nghamau at y Gymdeithas Adeiladu agosa' a'i gosod mewn nyth i ddodwy. Eto, mae'r gori mor hir, a'r deor mor siomedig fel bo raid meddwl am ffordd arall. Prynu'r papur pinc. Beibl gwŷr llygad y geiniog, a phrynu cyfran ar y farchnad arian. Gobeithio i mi brynu'n dda a'r ugain yn troi'n gannoedd yn fuan! A dyna fi ar fy ffordd i America. Ise mynd i gwrdd ag Andrew Young, Maer Atlanta, a Jesse Jackson, y ddau yn gyfeillion mynwesol i Martin Luther King. Alla i ddim mynd i Lundain ar ugain punt!

Go brin fod Y Dinesydd wedi rhoi £20 imi i chwarae bingo a'r farchnad stoc. Felly dewisaf lyfr. Ni fyddwn yn ei brynu - ei fenthyca mae'n debyg. Nid llyfr Cymraeg mohono, er hynny llyfr am Gymro di-Gymraeg - y gyfrol a gyhoeddwyd yn ddiweddar 'ma sy'n gasgliad o lythyrau Dylan Thomas. Does gen i ddim i'w ddweud wrth Dylan fel cymeriad - pwy sydd? Y mab afradlon, par excellence, gydag un gwahaniaeth pwysig - bu farw gyda'r moch a'r cibau. Ni ddaeth ato'i hun, ac nid oedd ganddo awydd am y cyfrys dro. Eto, roedd yn athrylith gyda geiriau, yn ddewin wrth eu trin. Gallai anadlu ysbryd y peth byw i frawddeg a'i chael i dasgu o'r dudalen. Dyna sy'n gwneud llenyddiaeth, ydy codi geiriau o'u beddau ac yn cerdded i'ch cyfarfod ac yn dawnsio gan fywyd ac egni. Eisiau treiddio i'r adnabyddiaeth ydw i os medraf i, i nabod cymhlethdod y cymeriad, i nabod creadigrwydd y cymeriad, i nabod cythreuldeb y cymeriad, a thybiaf na all rhywun ddod yn agosach at neb nag yn ei lythyron. A phwy a ŵyr na chaf gwpwl o bregethau o le annisgwyl! Rhaid adde fy mod wedi cael y "pechaduriaid" yn ddiddorol. Os na chaf i fynd i'r America fe all pobl Bethlehem, Gwaelod y Garth, ddisgwyl sawl ymweliad â'r wlad bell.

£20 Falmai Griffiths

Rwy'n edrych ymlaen at siopa'r Nadolig yma gan fy mod wedi derbyn £20 yn ychwanegol i'w wario, felly caiff rhai o'm cyfeillion newydd rywbeth bach i'w gofio eleni.

Byddaf yn prynu llwy fawr bren i'm "cyfaill newydd", Syr Keith Joseph, er mwyn iddo gynhyrfu mwy ar y dyfroedd. Ac os bydd arian ar ôl caiff o bwys o Byddaf yn anfon pum punt at Noreen Bray ac yn gofyn iddi ddysgu Vincent Kane i ddweud Llanwern yn lle Llanw-yn.

Rwy'n credu mai map o Gymru a roddaf i Nicholas Edwards er mwyn iddo ddysgu rhywbeth am y wlad mae e'n gyfrifol amdani.

Beth am botelaid o "Milk of Magnesia" i Dewi Pws gan fod "Torri Gwynt" nôl ar y sgrîn eto!

RYSEIT I WNEU PWDIN DOLIG CYFLYM

2 1/2 owns o flawd plaen
1/2 owns o bwdwr coco
3 owns o friwsion bara gwyn
4 owns o siwgwr brown tywyll
12 owns o ffrwyth sych cymysg
2 owns o almonau wedi eu llifanu neu golwytho'n fan
1 1/2 llond llwy de o speis cymysg
4 owns o siwed wedi'i garpio
sudd oren a'r croed wedi ei ratio'n fan
2 wy
1 1/2 llond llwy fwrdd o driog
1/8 peint o Guinness
1 llond llwy fwrdd o laeth.

1. Irwch dau fasyn beint.
2. Rhowch y cynhwysion sych mewn bowlen gyda'r croen oren wedi ei rato, a chymysgwch yn dda gyda'ch dwylo.
3. Curwch yr wyau, yna cymysgwch gyda'r Guinness, triog, llaeth a'r sudd oren i wneud cymysgedd llac - peidiwch a'u curo.
4. Ychwanegwch y cynhwysion sych a cymysgwch gyda'i gilydd.
5. Rhannwch y cymysgedd yn gyfartal rhwng y ddau fasyn, Gorchuddiwch gyda "cling film". Gwnewch slit bach yn y ffilm.
6. Coginiwch un pwdin ar y tro ar bŵer llawn mewn peiriant meicrodon am 6 munud. Gadewch iddo sefyll am bum munud a hanner cyn ei droi allan ar blat.

## LLYTHYRAU

Annwyl Dinesydd,

Ar gais nifer o gymdeithasau Cymraeg yn Lloegr a'r Alban, mae Undeb y Cymry ar Wasgar yn llunio rhestr o ddiddanwyr a siaradwyr o Gymru.

Mae galw arbennig yn y Cymdeithasau am siaradwyr diddorol, yn enwedig y sawl a all sôn yn ddifyr am eu galwedigaeth; pobl gynwys i gynnal oedfa yn Gymraeg; diddanwyr a all gynnal noson ddwy-ieithog (Cymraeg-Saesneg); partion canu ac adrodd; grwpiau a thelynorion. Mewn gair - "SiwperCymry"!

Byddai'r Undeb yn ddiolchgar dros ben i dderbyn manylion oddi wrth unrhywun o ddarllenwyr Y Dinesydd a hoffai ymuno yn y cynllun hwn : noder enw, cyfeiriad, rhif ffôn a thestyn darlith neu math diddanwch, os gwelwch yn dda, ac anfon y manylion at:

Eurgain Fowler
(Ysgrifennydd Cynorthwyol)
Hafod Heli
BORTH
Dyfed SY24 5JE

Cofion Cynnes,
Eurgain Fowler.

---

Coleg y Brifysgol

Annwyl Dinesydd

A gaf i ychydig o ofod yn y rhifyn nesaf o'r Dinesydd i gyhoeddi'r cwrs isod:

ADRAN EFRYDIAU ALLANOL

Rhai agweddau ar Lenyddiaeth Gymraeg Ddiweddar.
Cwrs 12 wythnos yng Nghanolfan Ysgol Glantaf i ddechrau ar nos Fercher 8 Ionawr 1986 am 7.00 o'r gloch.
Bwriedir astudio:
"Y Twr" - Gwenlyn Parry
"Cadw'r Chwedlau'n Fyw" - Aled Islwyn
"Marwydos" - Islwyn Ffowc Elis
& detholiad o gerddi gan feirdd cyfoes - e.e. Alan Llwyd, Menna Elfyn, Donald Evans, Robat Powel).
Tiwtor: Cefin Arthur Campbell
Tal: £12 (hanner pris i'r di-waith a phensiynwyr)

Gyda llawer o ddiolch,
Cefin Arthur Campbell.

# LLYFRAU'R 'DOLIG



ADOLYGIADAU

Daeth nifer o lyfrau i law a fydd yn y siopau y Nadolig hwn. Diolch i'r cyhoeddwyr am eu gyrru, a rhuthrwch i'r siopau i'w prynnu i lenwi'r sannau.

---

EGLWYSI CYMRU
Y Lolfa £2.45
Dyma'r diweddaraf yng nghyfres cyfeirlyfrau'r Lolfa. Y tim mam-a-merch arbennig hwnnw Mari Ellis a Marged Dafydd sy'n gyfrifol amdano, ac aelod arall o'r un teulu, Rolant J. Ellis yn gyfifol am y rhan fwyaf o'r lluniau. Cymysgedd difyr o hanesion lleol, disgrifiadau croyw, a manion diddorol. Just y peth i bori drwyddo'n hamddenol ar ol stwffio twrci i'ch bol ar bnawn 'Dolig.

---

TRWY GOED Y CEDYRN
Y Lolfa £1.75
'Antur aml-ddewis' yw'r disgrifiad cryptig a geir ar siaced y llyfr hwn. Dyma'r llyfr cyntaf o'i fath i ymddangos yn y Gymraeg. Ynddo, mae'r darllennydd yn chwarae rhan cymeriad o'r enw Dinogad, sy'n gorfod teithio ar antur fawr. Mae angen dis a phensel i ddarllen y llyfr, ac i gwffio'r anghenfilod ar y ffordd. Cyfres o baragraffau rhifedig sydd yma, y naill yn arwain at y llall, yn ôl dewis y darllennydd. Dyma ragflas:

91

> O'r diwedd rwyt wedi gadael Coed y Cedyrn ac mae'r gwastadeddau o'th flaen yn edrych yn hyfryd. Ar ôl cerdded am awr fe weli afon Glasddwr yn y pellter a phont gaerog yn ei chroesi.
> Os wyt am groesi'r bont tro i 112.
> Os yw'n well gennyt chwilio am groesfan arall gelli fynd naill ai i fyny'r afon (tro i 9),
> neu i lawr yr afon (tro i 26).
> Os wyt am wybod be sy'n digwydd, pryna'r llyfr.

---

Yn 1958 y cyhoeddwyd Y TRI LLAIS (Cyhoeddiadau Mei, dim pris!) yn gyntaf. Mae'n 1985 nawr, a dyma argraffiad newydd o glasur Emyr Humphries am fechgyn yn tyfu fyny. Ymdriniaeth feistrolgar a phroblemau adolesens ac ymwybyddiaeth dosbarth. Nofel sy'r un mor afaelgar heddiw a phan gyhoeddwyd hi gyntaf.

---

O Wasg Carreg Gwalch y daw HOGIA YN BENNAF (1.85). Cyfres o sgyrsiau yn nhafodiaith Môn gan fam yn sôn yn annwyl am ei phlant. Mae ei straeon am ei phlant yn troi yn ffocws myfyrdodau ehangach am natur plentyndod, mamolaeth a bywyd ei hun. Llyfr difyr i bigo mewn iddo ac i feddwl amdano.


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530


SKEVINGTON'S DAUGHTER (Faber £3.95) a RHONDDA TENPENN'ORTH (10c) gan Oliver Reynolds. Mae'r naill yn gyfrol o gerddi gan y bardd ifanc o Gymro sydd wedi bod wrthi'n dysgu'r Gymraeg. Mae'r llall yn daflen a gyhoeddodd ar ei liwt ei hun. Sylwebaeth ffraeth a threiddgar ar sefyllfa'r cymoedd a'u pobl a'u sefydliadau. Dyma'r South Wales Echo wedi ei ddal, fel pry' mewn pot jam: 'The stodge of an editorial rich in the cholesterol of cliche.'

---

MALI MEIPAN (Y Lolfa 95c)
yw'r llyfr diweddaraf ar gyfer plant gan Angharad Tomos. Fel arfer mae'n llawn cymeriadau diddorol, stori syml afaelgar a lluniau bywiog a lliwgar. O na bai pob llyfr i blant yn y Gymraeg fel hwn. Gwerth pob ceiniog.

---

Llyfr arall i blant o wasg Y Lolfa yw CANEUON Y CREADURIAID (£1.95). Casgliad o ganeuon ac alawon syml ar gyfer plant ifanc yn son am bob math o anifail, er enghraifft, Y Crocodeil: 'Mae'n edrych mor newynnog A'i res o ddannedd miniog Mae'n barod i dy fwyta di" a phenillion cysurlon tebyg i'r plantos.

---

LOYALTIES - Raymond Williams
Chatto & Windus £9.95
Rhychwanta'r nofel blynyddoedd cythryblus canol yr ugeifed ganrif, o 1936 i 1984. Fe'i lleolir yn bennaf yng nghymoedd maes glo de Cymru, er i'r stori gwmpasu rhai o brif ddigwyddiadau'r ganrif - rhyfel cartre Sbaen, rhyfel 1939 - 45, argyfwng Suez, rhyfel Fietnam a streic y glowyr. Thema'r gwaith yw ffyddlondebau - ffyddlondebau personol, rhywiol, teuluol, cenedlaethol, dosbarth, a gwleidyddol. Mae'r steil, fel yn nofelau eraill Raymond Williams, yn glasurol, realisig, a gwrthrychol. Nid nofel hanesyddol mohono ond gwaith creadigol sy'n cynnig golwg eang iawn ar hanes cymdeithas. Mae'n cadarhau safle Raymond Williams gydag Emyr Humphreys fel un o brif nofelwyr Cymru'r ugeinfed ganrif. Prynwch a darllenwch!

---

DYDDIADUR FFARMWR - Tom Jones
Gwasg Gomer £3.00
Cyfrol arall o gynnyrch cystadleuaeth Y Fedal Ryddiaeth yn Eisteddfod Rhyl. Er mai "Cyn Daw'r Gaeaf" gan Meg Elis a wobrwywyd roedd un o'r beirniaid, Gruffydd Parry, o'r farn mai hon oedd yn haeddu'r wobr. Dywedodd "... perfeithrwydd crefft sydd yma a honno wedi ei chuddio a gadael argraff mai'r adeiladwaith gorffenedig yn unig sydd yn bod. Ffair a marchnad, ffridd a phwyllgor, ffwdan tymor wyna, hamdden gwyliau'r haf - mae'r cyfan yma mewn iaith gyhyrog, goeth ac eglur ... Rhodder tair cymeradwyaeth iddo. I ddechrau mae'n ddifyr, yn syml ac yn ddarllenadwy; yn ail, mae'n ddogfen gronicl werthfawr o hanes ffermwr a'i deulu a'i gynefin a'i fro yn y byd cyfoes; ac yn drydydd, mae'n ychwanegiad at ryddiaith Gymraeg".

---

MYND I LAWR I'R NEFOEDD -
Menna Elfyn Gwasg Gomer
Dyma bedwaredd cyfrol Menna Elfyn. Ynddi ceir 36 o gerddi sy'n adlewyrchu profiadau ac argyhoeddiadau mam ifanc o heddychwraig. Mae nifer o'r cerddi yn deillio o brofiadau'r fam gyda'i phlant, ac yn aml daw'r ymrwymiad at heddychiaeth i'r wyneb yn sgil y profiadau hynny, fel yn y gerdd rymus "Shwd ych chi'n marw mam?" sy'n crisialu llawer o syniadaeth a naws y gyfrol:

> beth am ddysgu chwarae byw
> (tra'i bod hi dal yn bosib).

# BRAS-ODLAU

gan EMYR LEWIS

Testun amserol ar gyfer y Nadolig yw testun cerdd y bardd a groesewir i'r golofn yr wythnos hon. Dyma'r gerdd 'Heddwch' o eiddo Eleri Morgan a enillodd iddi'r wobr gyntaf mewn cystadleuaeth i ysgolion De Morgannwg. Mae'n braf gweld canu mor afaelgar, uniongyrchol a disgybledig. Mae'n amlwg bod addewid i'r dyfodol.

Heddwch

Gweld mamau yn wylo,
Meibion yn brwydro
Dros heddwch y byd,
medde nhw.

Taflwyd y waywffon,
Trywanwyd sawl bron
Dros heddwch y byd,
medde nhw.

Roedd y Rhyfel Byd Cynta',
Yn sicir 'da'r casa'
Dros heddwch y byd,
medde nhw.

Gwelwyd y gwaedu,
A chlec y bwledi
Dros heddwch y byd,
medde nhw.

Parlyswyd cyrff dynion,
Eneidiau yn deilchion
Dros heddwch y byd,
medde nhw.

Ac wedyn fe ddaeth eto:
Rhyfel i boenydio
Dros heddwch y byd,
medde nhw.

Yna'r erchylltra yn Fietnam,
Yn lladd mamau tirion a phlant di-nam
Dros heddwch y byd,
medde nhw.

Ond un camgymeriad-
Hiroshima'r camwasgiad
Dros heddwch y byd,
medde nhw.

Ond parhau mae'r rhyfeloedd,
A lleddir y miloedd
Yn enw heddwch y byd,
medde nhw.


NADOLIG
CYMREIG YNG
NGHANOL Y DDINAS
Y Cwbwl dan yr un to
Llyfrau Recordiau
Cardiau Calendrau



Oriel
53 Heol Siarl,
Caerdydd.
ffôn 395548

# ENNILL Y DYDD
## o'r diwedd

CWESTIWN: Am ba hyd mae gêm beldroed yn para?

Dwi'n siwr y 'r mwyafrif mawr ohonoch yn rhoi'r ateb cywir a dweud mai am awr a hanner y pery'r gêm. Ond, ystyriwch hyn o beth yn hanes Clwb Cymric, a hwyrach y byddwch yn ail feddwl.

Chwibanodd y dyfarnwr ei bîb i ddechrau'r gem ar Sadwrn Hydref 12fed ac ar Sadwrn 23ain o Dachwedd y daeth ei diwedd. Celwydd noeth, tybed? Na, gwir pob gair, er na fu'r Clwb yn llythrennol yn cicio pêl trwy gydol yr amser chwaith.

Beth ydy'r esboniad ynte? Wel gêm yn ail rownd Cwpan Ninian Stuart yn erbyn Llanedeyrn, a thri Sadwrn a thair yndrech i sicrhau canlyniad; awr a hanner i gychwyn, ac yn hanner awr o amser ychwanegol pob gêm yn gwneud cyfanswm o chwe awr o chwarae cyn i'r Cymric ennill y dydd a gêm yn y rownd nesaf yn erbyn tim papur Wiggins Teape ar ddiwrnod olaf o fis Tachwedd.

A beth am y gemau tybed. Hwyrach mai anghofio'r gyntaf a ddylid ei wneud oherwydd dylid fod wedi ennill y frwydr yn y fan a'r lle bryd hynny. Pedair gôl yr un oedd y canlyniad wedi'r amser ychwanegol, a hynny ar ôl bod dair gôl i ddim yn y blaen yn ystod yr hanner cyntaf! Gorffwys ar y rhwyfau, ymlacio a dioddef yn y diwedd, a thrwy lwc yn llwyddo i ddod yn gyfartal yn ail hanner yr amser ychwanegol. Y sgorwyr oedd Martin, Dewi (Chips), Huw y capten, a'r bedwaredd trwy gwrteisi'r gwrthwynebwyr!*

Roedd pethau yn fwy clos yn ystod yr ail gêm ar Barc y Rhath a phawb yn gwybod yn weddol beth oedd manteision ac anfanteision y gwrthwynebwyr, a hwythau yn gwybod yr un peth am y Cymric! Un gôl yr un oedd y sgôr terfynol, gyda Simon yn sgorio i ddod â'r sgor yn gyfartal rhyw ddeg munud cyn terfyn yr awr a hanner.

Ar faes Trelai y daeth y gêm i ben, a hithau erbyn hynny yn noswylio'n gyflym a phob tîm arall wedi hen droi tua thref. Roedd y cawodydd yn rhedeg yn oer, a'r mwd a'r baw wedi ei sgubo'n llwyth wrth ddrws yr ystafell newid pan droediai tim blinedig y Cymric yn fuddugoliaethus o'r oerfel. Roedd ambell un yn gallu fforddio gwên, ond ymryddhad ac anghrediniaeth oedd ar wynebau y mwyafrif. O'r diwedd roedd y marathon drosodd; fe gafwyd canlyniad, ac yn ffodus, o blaid y Cymric oedd hwnnw.

Roedd pawb bron mor gyfarwydd fel mai wrth eu henwau cyntaf y galwai pawb ei gilydd, ac ambell un yn holi am hynt a helynt y gath, y ci neu'r bwji! Ond wir, wedi dechrau'r cicio roedd y frwydr yr un mor ffyrnig ag erioed a dau enw yn mynd i lyfr bach y dyfarnwr. Yn wir, ar ddiwedd y gêm, anfonwyd un o'r gwrthwynebwyr oddi ar y cae, a hynny am fynny gwthio a herio awdurdod y dyfarnwr.

Llanedeyrn sgoriodd gyntaf, o'r smotyn wedi i Huw Eurig wthio un o'r blaenwyr o'r neilltu yn ddiseremoni (fel y dylai wneud, wrth reswm). Roedd y Cymric yn gyfartal rhyw chwarter awr cyn diwedd yr awr a hanner, gôl gyntaf Cerith i'r Clwb eleni, a hynny gydai'i ben, coeliwch neu beidio! Ta waeth, roedd yn cyfri ac yn sicr bu'n sbardun i'r tim yn ystod yr amser ychwanegol.

Sicrhawyd y fuddugoliaeth rhyw ddeng munud cyn y diwedd pan fanteisiodd Rhodri ar funud wan yn yr amddiffynfa i benio'r bêl hejbio'r golgeidwad. Ef hefyd a sgoriodd y drydedd ychydig funudau yn ddiweddarach i nodi buddugoliaeth o dair gôl i un yn y diwedd.

Tybed ydy'r ymdrech yma yn nodi newid yng nghanlyniadau'r Clwb yn y Gynghrair eleni? Cofiwch mai dim ond dwy fuddugoliaeth yn unig sydd wedi dod i'w rhan, a phri yng ngwaelodion y maent ar hyn o bryd.

Tydi pethau fawr gwell ar yr ail dim, Aelwyd yr Urdd, ac yn hanner isaf eu hadran y maent ar hyn o bryd. A ddaw 1886 a dyddiau gwell i'r Clwb - cawn weld.

Ar yr ochr gymdeithasol, dylid nodi'r canlynol:

Croeso nôl i Huw Bevan wedi iddo fod yn teithio'r byd am flwyddyn - hwyrach y cawn beth o'i hanes yn yr India ac Awstralia ar dudalennau'r Dinesydd cyn bo hir.

Llongyfarchidau i Elwyn (Cae Canol) a Rhian ar enedigaeth mab yn ystod mis Tachwedd - ame eisioes wedi arwyddo i'r Clwb ac fe gaiff fenthyf esgidau peldroed ei dad.

Croeso nôl a hwyl i Gareth (JO) - "digwyddodd, darfu megis seren wib"

CYNGHRAIR CAERDYDD A'R CYLCH

| ADRAN PREMIER | CH | EN | CYF | C | P |
|---|---|---|---|---|---|
| Bridgend Street | 10 | 9 | 0 | 1 | 18 |
| Grange Quins | 8 | 7 | 1 | 0 | 15 |
| Grange Albion | 10 | 6 | 2 | 2 | 14 |
| Wiggins Teape | 10 | 6 | 2 | 2 | 14 |
| St. Patrick's | 7 | 4 | 0 | 3 | 8 |
| Fairwater S. | 7 | 3 | 0 | 4 | 6 |
| Heath Hornets | 11 | 1 | 4 | 6 | 6 |
| Witla Court | 9 | 3 | 0 | 5 | 6 |
| Trelai Old Boys | 7 | 2 | 1 | 4 | 5 |
| Clwb Cymric | 8 | 2 | 1 | 5 | 5 |
| Llanedyrn | 7 | 1 | 0 | 6 | 2 |
| S.G.I.H.E. | 6 | 0 | 1 | 5 | 1 |

CYNGHRAIR COMBINATION CAERDYDD

| ADRAN PEDWAR | CH | En | Cyf | C | P |
|---|---|---|---|---|---|
| Caerau | 11 | 9 | 0 | 2 | 18 |
| Crown Rangers | 11 | 8 | 1 | 2 | 17 |
| Woodville Hotel | 11 | 6 | 3 | 2 | 15 |
| Lanishen Wand. | 9 | 6 | 1 | 2 | 13 |
| Tremorfa | 10 | 6 | 1 | 3 | 13 |
| Whit.Hosp.Grass. | 9 | 4 | 2 | 3 | 10 |
| Dinas Powys | 10 | 3 | 2 | 5 | 8 |
| Avenue Hotspur | 8 | 3 | 1 | 4 | 7 |
| Cardiff Cossacks | 9 | 3 | 0 | 6 | 6 |
| Aelwyd yr Urdd | 11 | 2 | 1 | 8 | 5 |
| Cathays Cons. | 10 | 2 | 1 | 7 | 5 |
| Grangetown B.C. | 11 | 1 | 1 | 9 | 3 |

Cafwyd ymateb brwd i'r gystadleuaeth nabod y lle y mis dwetha. Yr ateb, wrth gwrs, oedd Llyfrgell Carnegie ar gongl Fairoak Road a Heol Yr Eglwys Newydd, gyferbyn ag Ysgol Gladstone, yr enillydd oedd M.Lewis, dysgwraig o 9 Norwood, Thornhill. Llongyfarchiadau iddi a bydd gwobr yn y post maes o law.

**NADOLIG LLAWEN**
**A**
**BLWYDDYN NEWYDD DDA**

# SÊR Y DINESYDD
EIRY PALFREY

ARIES: Cyfnod gwych i gynllunio tuag at y flwyddyn sy'n dod - yn y gwaith ac yn eich bywyd personol. Byddwch yn llawer mwy trefnus eich meddwl wc yn fwy amyneddgar nag y buoch ers tro. Mae'r Nadolig yn argoeli'n gyfnod cymdeithasol tu hwnt.

TAURUS: Mis llewyrchus iawn yn ariannol. Mi fyddai'n syniad buddsoddi peth o'ch cyfoeth at y dyfodol. Mae hwn yn fis lwcus i chi. Byddwch yn prynu anrhegion gwreiddiol ac anarferol eleni - ac efallai'n derbyn rhai felly hefyd!

GEMINI: Mis cymdeithasol iawn, a byddwch yn cyfarfod â rhywrai yn gymdeithasol a fydd yn help mawr yn eich gwaith. Bydd hwn yn gyfnod rhamantus iawn i chi. Dyma'r amser i sefydlu seiliau cadarn a sicr ym mhob adran o'ch bywyd. Thâl hi ddim i fod yn wamal o hyn allan.

CANCER: Peidiwch a cheisio gwneud gormod - cymrwch eich pwyll a mwynhewch fywyd! Os ydych yn disgwyl newyddion ynglyn a'ch gwaith peidiwch â phoeni neu ruthro pobl. Dylai eich sefyllfa ariannol fod yn eitha iach erbyn hyn. Ymlaciwch fwy!

LEO: Ceisiwch beidio â threfnu pawb a phopeth o hyd, gadewch i eraill gymryd yr awenau weithiau. Bydd hwn yn fis rhamantus a chymdeithasol iawn. Ceisiwch osgoi gor-wneud pethau - gorwario, goryfed, gorfwyta.....

VIRGO: Efallai bydd man broblemau yn codi yn y cartref, serch hynny ffafriol iawn yw'r darlun cyfan. Os bu rhwystrau yn eich dal yn ôl byddant yn diflannu nawr. Peidiwch â bod yn fyrbwyll gyda'ch arian - beth bynnag fydd yn demtasiwn.

LIBRA: Fe allai pethau fod yn haws y mis yma ond fe fydd gennych ddigon o ynni i ddygymod a phroblemau. Byddwch yn boblogaidd iawn mewn partion. Efallai y cewch broblemau ariannol neu gyfreithiol ddechrau'r mis - gofalwch rhag gwario'n annoeth.

SCORPIO: Arian fydd fwyaf blaenllaw yn eich meddwl y mis hwn - a nid ei absenoldeb o anghenraid - ond rhaid osgoi gwario afraid. Byddwch yn llawn ynni , brwdfrydedd a gwreiddioldeb yn enwedig tua'r Nadolig. Dyma gyfnod ardderchog i gychwyn ar fenter newydd.


SAGITTARIUS: Dyma ddechrau cyfnod o rwystrau ac ansicrwydd. Byddai'n ddoeth i ymgynghori â'r arbenigwyr os cyfyd unrhyw broblem - cyfreithiol, meddygol ac ati. Serch hynny mae cyfnod yr Wyl yn argoeli'n dda - ond i chi ymarfer cymedroldeb - ym mhob peth!

CAPRICORN: Peidiwch â mentro yn ddianghenraid, yn enwedig gyda'ch arian - neu arian bobl eraill. Gall addewid droi'n dwyll a gall eraill wastraffu eich amser prin. Daw datblygiadau yn y cefndir a newidiadau pwysig yn eu sgil i'ch amcanion a'ch diddordebau.

AQUARIUS: Rydych yn mynd trwy gyfnod ffafriol ac optimistaidd iawn ar hyn o bryd. Os bu i ddigwyddiadau annisgwyl eich ysgwyd yn y gorffennol rydych ar drothwy cyfnod mwy sefydlog bellach. Beth bynnag yw eich nod a'ch uchelgais dylech ei gyrraedd yn weddol ddiffwdan nawr.

PISCES: Mae'r pwyslais y mis hwn ar eich gyrfa a'ch safle mewn cymdeithas - a mae'n argoeli'n dda. Efallai bydd llythyr pwysig yn cyrraedd yn hwyr. Os bu penderfyniad yn eich poeni daw'r ateb iawn cyn canol y mis. Byddwch yn llawn ynni a brwdfrydedd dros gyfnod y Nadolig.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 57



AR DRAWS:

1. "Na ddod dy law _ ____." (Genesis XXII) (1, 4)
4. Mae'r Y.W.C.A. yn dyst anesmwyth o'r feirniadaeth lem. (8)
10. Dawn arbennig Miss Owen, wrth lunio ac wrth leisio cân. (5,4) (Gair at y beirniaid. Ceisia dithau, frawd, ddod o hyd i unrhyw air Cymraeg yn gorffen ag H, heb sôn am un â naw llythyren, a byddi dithau hefyd yn falch o gael troi at enwau Hebraeg.)
11. Ffiaidd o beth yw gast â natur ansicr. (5)
12 a 13 a 15 a 16 a 18 a 20 a 27 a 28. Cyfarchion tymhorol y Dinesydd. (7,7,5,1,7,5,2,1,3,2,1'1,3,9)
23. Tro draw ble ceir achos i'w ateb. (7)
26. Llesol. (7)
29. Trowyd (coes y ford, er enghraifft) (8)
30. Gwirionyn. (5)

---

I LAWR:

1. Mewn geiriau eraill, yn casglu byddin. (2,4,2)
2. Mae enw da i'r Bermo. (7)
3. Yr ydym yn cydweld. (7)
5. Lleoliad daearyddol Llangynwyd, y pentre lle goroesodd hen arfer Nadolig y Fari Lwyd hyd ddechrau'r ganrif hon. (7,3,4)
6. Llygod eglwys efallai. (5)
8. Yn eitha sad. (6)
9. Lle cafodd Clay a Bowering eu profiad eang. (4,4,3,3)
14. Ateb cadarnhaol a fu. (3)
17. Yr hyn y mae canwr sy'n sglefrio o un nodyn i'r llall yn ei wneud. (2,6)
19. Teilwng, addas, treigledig. (3)
20. R. Bengoch yn troi'r rudd arall. (7)
21. Bos y tŵr sydd yn ymffrostio. (7)
22. Tipyn o orchest. (6)
24. A yw'r aflan yn gweithio am gyflog? (5)
25. Tywyllwch? (5)

DATRYSIAD RHIF 56

AR DRAWS: 1.(a 4 i lawr) Y dysgedicaf yn ein mysg; 10.Llanfyrnach; 11.Lydia; 12.Naomi; 13.Ychwanegol; 14.Bywedig; 16.Dialgar; 18.Bid Bont; 20.Cwtogaf; 21.Eglurasai; 23.Paned; 24.Wiced; 25.Duw yr Iddew; 26.Breuddwydiaist.

I LAWR: 2.Danfonwyd; 3.Swyddi; 4.Gweler 1 i lawr; 5.Iachawyd; 6.Adloniant; 7.Yn deg; 8.Allan o bob rheswm; 9.Haul ar y Fodrwy; 15.Diofrydau; 17.Gogoneddus; 19.Tas ydyw; 20.Ceidwad; 22.Licer; 23.Parha.

CYSTADLEUAETH RHIF56:
Derbyniwyd pum ymgais, pedwar ohonynt yn gywir, yr enw a ddaeth allan oedd eiddo M.E.D., 5 Rookwood Avenue, Llandaf. Bydd y tocyn llyfrau am £5 ar ei ffordd iddi yn fuan. Y datryswyr cywir eraill oedd B.H., Cyncoed; D.Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; a Dewi Nantglyn, Yr Eglwys Newydd.

CYSTADLEUAETH RHIF 57:
Cynigir tocyn llyfrau Cymraeg am £5 y mis hwn eto. Enw neu ffugenw ar ymyl y croesair a'i anfon, os gwelwch yn dda, i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd, erbyn 11 Ionawr 1986.

---

YSGOL FEITHRIN Y WAUN A'R CYLCH

Yn eisiau erbyn mis Ionawr '86 - hyfforddwraig neu rywun gyda chymwysterau N.N.E.B. am 4 diwrnod, 10 awr yr wythnos.

Manylion pellach gan:
Elisabeth Shore: Caerdydd 758878 neu
Sandra McAlister: Caerdydd 44889.


TYLA MORRIS

Hamilton

Restaurant
Ffôn

Pentyrch 892232
892242 891922

Cawl y diwrnod

~

Crempog madarch a berw'r dwr
gyda saws mornay

Eog wedi'i gochi
a'i lapio am mousse eog

Terrine o lysiau
gyda saws cwrens duon a phort

Pate o'r wlad a thost garw poeth

~

Weden Dover gyda saws o win gwyn,
hufen a tharagon

Stêc Tartare

Hwyaden rost creisionllyd
gyda saws grawnwin duon

Porc calvados

Afu oen yn arddull Fenis

Stec o'ch dewis gyda menyn sawrlysiau

Kebab cig oen o'r gridyll golosg
ar wely o reis

Cwningen a llysiau mewn sudd oren

~

Dewis o lysiau

Salad ffres gyda blaslyn olew olif
neu gnau Ffrengig

£14.95



## Ymchwilydd - Rhaglenni Ysgafn

Mae angen Ymchwilydd ar HTV Cymru i weithio ar raglenni adloniant ysgafn, comediau sefyllfa, rhaglenni cerdd, a rhaglenni plant. Dylai'r ymgeiswyr fod a phrofiad, neu o leiaf diddordeb byw yn y mathau yma o raglenni, ac yn barod i ymuno a thim bywiog a gweithgar yn sefydlog yng Nghaerdydd.

Cyflog (o dan hyfforddiant) - £6,850 y flwyddyn. (Wedi gorffen hyfforddiant, bydd y cyflog rhwng £10,023 a £13,709 gan gynnwys atodiadau lleol).

Y swydd i gydymffurfio a'r cytundeb rhwng y cwmni ag undeb ACTT.

Dylai ymgeiswyr, mab neu ferch, anfon am ffurflen gais gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig gan nodi cyfeirnod DIN/485 at: Y Rheolwr Staffio, HTV Cyfyngedig, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF5 6XJ.

HTV

ANRHEGU MARY PRYCE RHIWBEINA

CYNHALIWYD noson yng ngwesty Llety Cymro, Heol yr Eglwys Gadeiriol ar nos Wener 1 Tachwedd gan Bwyllgor Cylch Meithrin Rhiwbeina er mwyn cyflwyno tysteb a phlât arbennig i Mary Pryce y cyn-athrawes. Bu'n gwasanaethu fel athrawes hynod boblogaidd ac ymroddedig am dros naw mlynedd a chyfrannodd llu o gyfeillion, fu'n gysylltiedig â Mary dros y blynyddoedd, i'r tysteb. Yn ystod y noson hefyd anrhegwyd Lon Wright, cyn-drysorydd y cylch a'i gŵr Dave Wright am eu gwaith trylwyr a chydwybodol yn trafod cyllid y cylch dros gyfnod o bedair blynedd. Rhoddwyd teyrnged i'r tri gan Ann Brain y Cadeirydd presennol.

GRADDIO: Llongyfarchiadau i Sian Rhiannon ar ennill gradd Ph.D. am eu hastudiaeth o iaith bro eu mebyd yng Ngwent. Un o Rhymni yw Sian ac oddi yno aeth i Ysgol Gyfun Rhydfelen ac i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth cyn cychwyn ar ei gwaith presennol gyda'r BBC yng Nghaerdydd.

GENI: Llongyfarchiadau i Rhian ac Elwyn Roberts, St. Michael's Road, Llandaf ar eu mab bychan, Gruffydd, ar ddydd Sul, 10 Tachwedd - llawenydd mawr i Alcwyn a Llywela Evans (dyna'r ŵyr cynta') ac i Mr. a Mrs. Gruffydd Roberts, Rhoslan, Gwynedd, rhieni Elwyn.

I'R HAUL: Deallwn y byddwn yn ffarwelio dros dro â Huw Jenkins ddiwedd y flwyddyn gan ei fod wedi derbyn swydd fel athro yn Lanzarote. Mae Huw ar yn o bryd yn dysgu yn Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd. Wrth ddymuno'n dda iddo fe ategwn y gobaith y daw yn ei ôl yn fuan iawn.

YN EISIAU

Rhywun i warchod dwy eneth fach (tair blwydd oed a saith mis) am ddeuddydd yr wythnos. Cysyllter â Chaerdydd 512508.

CHWERTHIN YN GYMRAEG

Yng nghyfarfod y Cymrodorion cafwyd darlith hwyliog gan y Parch. Eifion Powell ar hiwmor y Cymry sydd yn ôl enghreifftiau dirif y Parchedig yn wahanol i hiwmor bobl eraill. Yr oedd chwerthin iach y gynulleidfa yn festri Minny St. yn well na moddion unrhyw feddyg - roedd y te yn dda iawn hefyd!



MERCHED Y WAWR

Daeth nifer dda o aelodau'r gangen ynghyd ar nos Lun 11 Tachwedd i wrando ar Valmai Evans yn sôn am ragoriaethau Yoga. O ymarfer Yoga deuir i adnabod y corff, ymlacio a dysgu sut i ganolbwyntio a thawelu'r meddwl. Dangoswyd i ni sut i wneud amrywiaeth o safiadau ac anadliadau yoga gan bedair o ferched sydd yn aelodau o ddosbarth nos Valmai yn Ysgol Glantaf. Ar ddiwedd y noson roeddem wedi ein hargyhoeddi gymaint llesad sydd i'w gael o ymarfer Yoga.

Dyma gyfarfodydd Merched y Wawr am 1986:

- Ionawr 13 - Noson gyda'r dysgwyr
- Chwefror 10 - Sain Ffagan - Arwyn Lloyd Hughes
- Mawrth 10 - Rhaglen nodwedd ar Kate Roberts - Kathleen Wood
- Ebrill 11 - Noson i'r Cymrodorion ar Kate Roberts
- Mai 12 - Cyfarfod Cyffredinol. Hefyd sgwrs ar "Goluro" gan Eleri Hughes (Christian Dior, Howells)

GENI: Ar 7 Rhagfyr ganwyd merch, Rebecca i Mr. a Mrs. Huw T. Davies, wyres i Mr. a Mrs. John H. Davies yr Eglwys Newydd. Huw Davies yw ysgrifenydd mudiad Curiad Calon Cymru.

# GAIR O'R POST

HTV
Yr Wyddgrug

Annwyl Dinesydd,

Caniatewch i mi, drwy gyfrwng eich papur, ofyn i'ch darllenwyr a oes dathliad o unrhyw fath ar ddigwydd yn eich bro. Carwn yn fawr gael gwybod am benblwyddi personau arbennig, sefydliadau, cymdeithasau, capeli, eglwysi, clybiau, neu unrhyw ddathlu arall sy'n debyg o ddigwydd yn ystod y deunaw mis nesaf.

Cysyllter â:
Idris Charles
HTV
Y Ganolfan Deledu
Canolfan Dinesig
Yr Wyddgrug
Clwyd CH7 1YA

Yr eiddoch yn gywir,
Idris Charles.

Afallon
Cwm Ystwyth

Annwyl Dinesydd

Dim ond gair i dim y Dinesydd i ddweud pa mor dda ydi'r papur a pha mor falch ydw i yn bersonol (heb sôn am Mered) i ddal i gael y newyddion o Gaerdydd, ac ei gael mewn ffurf mor broffesiynol. Hir oes!

Pob hwyl a phob lwc,
Phyllis.

Derbyniwyd dau lythyr yn cyfeirio at yr erthygl a gyhoeddwyd ymis diwethaf ynglŷn â'r Ffrynt Genedlaethol. Roedd un yn ddi-enw a'r llall yn dwyn enw "J.Hughes (o Gaerdydd)". Polisi'r Panel Golygyddol yw peidio â chyhoeddi unrhyw gyfraniad heb dderbyn enw a chyfeiriad y cyfrannwr. Yr ydym yn barod i'w cyhoeddi yn ddi-enw, ond rhaid inni dderbyn tystiolaeth o'u dilysrwydd.

AR 22 TACHWEDD gwahoddodd aelodau Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro eu gwragedd i'w cinio blynyddol. Y siaradwraig (y brif siaradwraig, hynny yw) oedd Rebecca Powell a swynodd ei chynulleidfa â huotledd ei hanerchiad ardderchog. Y Parchedig Gareth Watts ddiolchodd i Mrs.Powell ar ran y Cylch a Mr.Islwyn Jones wnaeth y cyhoeddiadau. Cafwyd noson gofiadwy yn gwrando ar y tri siaradwr yn traethu mor feistrolgar.

Mewn ocsiwn yn dilyn y ginio codwyd £35 tuag at ymgyrch Radio Cymru i gronfa Plant Mewn Angen.

John Elfed Jones, cadeirydd Bwrdd Dwr Cymru, fydd siaradwr y cylch yn y cyf rfod nesaf ar y 29ain o Ionawr. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

